

CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



Rhifyn 346 - 60c
Medi 2016

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanyrcrws ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Iwan a
Tomos yn yr
Iseldiroedd**



Tudalen 16

**Cadwyn
Cyfrinachau
arall**



Tudalen 27

**Enillwyr
Eisteddfod
RTJ 2016**



Tudalen 30

Llwyddiant Eisteddfodol



Martin Huws, Ffynnon Taf, Rhondda Cynon Taf enillydd y Goron. Yn y llun hefyd mae disgyblion y Ddawns flodau o Ysgol Cwrtnewydd.



Kees Huysmans aelod o Gôr Meibion Cwmann a'r Cylch enillydd y Rhuban Glas yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru Mynwy a'r Fro 2016 yn torri cacen y dathlu yn ystod cyfarfod croeso adre gydag aelodau'r côr yn Festri Brondeifi. Gyda Kees wrth y bwrdd mae Alun Williams, Llywydd; Elonwy Davies, Arweinydd; Elonwy Pugh Huysmans, Cyfeilydd a Ken Lewis, Cadeirydd.

Disgyblion Talentog



Disgyblion Ysgol Bro Pedr yn dathlu canlyniadau Lefel A ardderchog. O'r chwith - rhes gefn - Elin Evans, Gareth Jones, Caitlin Page, James Edwards, Rhys Jones, Sioned Martha Davies, Emyr Davies a Meinir Davies. Rhes ganol - Kelly Morgans, Megan James, Angharad Owen, Betsan Jones, a Sara Thomas. Rhes flaen - Damian Lewis a Rhys Williams.



Disgyblion yn dathlu eu TGAU - O'r chwith - rhes gefn - Twm Ebbsworth, Jack Hulme, Daniel Thomas a Tomos Evans. Rhes ganol - Alpha Evans, Ffion Evans, Alice Sargent a Anna Davies. Rhes flaen - Coronwen Neal, Sally Rees a Briallt Williams.



ARWYN VOB
ACCOUNTANCY LTD.

ACCA

CYFRIFYDD SIARTREDIG

Maesowen,
Rhydownen,
Llandysul,
Ceredigion.
SA44 4PY

- ❖ Cyfrifon Blynnyddol ac Interim
- ❖ Ffurflenni Treth Personol ac i Gwmnïau
- ❖ Cadw Llyfrau gan gynnwys Ffurflenni TAW
- ❖ Cyflogau a CIS
- ❖ Cyngor Cyffredinol i Fusnesau ac Unigolion

Gwasanaeth effeithlon prydlon gyda gwên gyfeillgar!

Ffoniwch ni ar
07557 448234
neu

ebost arwyn@avaccountancy.cymru



www.facebook.com/clonc360



@Clonc360

Rhannwch eich newyddion lleol gyda Phapur Bro Clonc.



Aildrydarodd
[@Clonc360](#) neges
[@Scarlets_rugby](#)
Awst 10

Lot o hwyl a sbri yn
Llambed bore 'ma yn
ein Gwersyll Rygbi Haf!

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Trydarodd
[@Clonc360](#)
Awst 12

Dyma flas i chi o Sioe
Amaethyddol #Llanbed
heddiw.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Trydarodd
[@Clonc360](#)
Awst 13

Y beimiadu newydd
ddechrau yn Sioe
Cwmsychpant. Tywydd
yn braf.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](#) neges
[@Craffwr](#)
Awst 20

Tîm leuenctid
[@LampeterTownRFC](#) 5
a [@ClwbRgbiCNE](#) 5 yn
ail hanner y gêm nawr yn
#Llanbed.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](#) neges
[@SteddfodLlanbed](#)
Awst 21

Rhys a Shan yn
brysur iawn pnawn ma
yn glanhau cwpannau
[@SteddfodLlanbed](#).
Diolch yn fawr i chi!

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](#) neges
[@MennaWilliams](#)
Awst 23

Sioe llwyddiannus
eleni eto! Diolch i
bawb nath gefnogil!
#SioeGorsgoch

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu

Pwy yw pwy?

Beth yw beth?

Golygydd:			Bwrdd Busnes:		
Medi	Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach	481855	Cadeirydd	Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann	422349
Hydref	Delyth Phillips, Llety Clyd, Stryd Newydd	422992	e-bost:	cadeirydd@clonc.co.uk	
e-bost:	golygydd@clonc.co.uk		Is-Gadeirydd	Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach	481855
			Ysgrifenyddes	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Tim Golygyddol	Elaine Davies, Siwan Davies, Dylan Lewis, Marian Morgan a Delyth Morgans Phillips		Trysorydd	Nia Davies, Maesglas, Drefach	480015
			e-bost:	ysgrifennydd@clonc.co.uk	
Dylunydd y mis	Nia Davies, Maesglas, Drefach	480015	Ffotograffydd	Tim Jones, Llainwen, Llambled	422644
Swyddog Dosbarthu	Eifion Davies, Afallon, Drefach	480590	Argraffwyr	Gwasg Aeron, Aberaeron	01545 570573
e-bost:	bedwyr@btopenworld.com				
Teipydd	Nia Davies, Maesglas, Drefach	480015			
Gohebwy'r Lleol:			• Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion. • Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes. • Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad. • Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn Clonc. • Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk • Gallwch adael newyddion a lluniau yn Crown Stores, Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan. • E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk • Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk • Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu lluniau plant i'w cynnwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law. • Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50. • Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.		
Cellan	Alwen Edwards, Awel Teifi	421001			
Cwmann	Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen	422922			
Cwmsychbant	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015			
Llanwenog/Drefach	Mary Davies neu Eifion Davies				
Ffaldybrein/Ffarmers	Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers	01558 650507			
Gorsgoch	Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod	434238			
Llambled	Janet Evans, Haulfryn	422856			
Llanfair	Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn	493407			
Llangybi a Betws	Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon	493325			
Llanllwni	Eirlys Owen, Cwmderi	481041			
Llanwnnen	Elin Thomas, 1 Teras Sycamor	480239			
Llanybydder	Menna Jones, Ceginau Lifestyle	480257			
Pencarreg	Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf	422270			

Siprys

Crwydro
Mae'r haf yn amser i grwydro. Mae'n gyfle i lawer fynd bant ar wyliau, neu os nad ydyn ni'n mynd o gartref, mae'r nosweithiau hir yn golygu y gallwn wneud a gweld llawer mwy mewn diwrnod.
Un ffenomen ddaeth yn boblogaidd ar ddechrau gwyliau'r ysgol oedd lansio'r gêm Pokemon Go ar gyfer ffonau symudol. Yn syth, daeth beirniadaeth a pharanoia: och a gwae, allwch chi ddim gadael eich plant yn y parc rhag ofn bydd pedoffiliaid a phobol ddrwg o gwmpas! Does neb yn gallu ennill erbyn hyn, nagoes: mae rhai yn beirniadu ieuencid am gaethiwo'u hunain yn eu tai yn chwarae ar eu cyfrifiaduron, tra bod eraill yn mynd yn paranoid o feddwl am bobol ifanc yn cael rhyddid i chwarae'n yr awyr agored.
Mae'n siŵr fy mod i'n hŷn na chynulleidfada darged y gêm Pokemon Go, ond o'm profiad i o'i chwarae'n achlysurol, rwy' wedi cael fy mhlesio. Nid 'mod i'n deall rhyw lawer am sgiliau a thriciau'r gêm, ond rwy' wedi dysgu ambell beth am ardaloedd o'n i'n meddwl o'n i'n gyfarwydd â nhw. Mae'n wir bod y gêm yn fwy cyffrous mewn trefi na mas yn y wlad, ond rwy' wedi defnyddio'r gêm yn Llambled, Aberystwyth a Chaerfyrddin, a dod ar draws ambell beth am eu hanes a'u nodweddion - cofgolofnau, placiau ar welydd, addoldai a thafarndai, ac yn y blaen. Yn Llambled er enghraifft, do'n i heb sylwi ar y plac gan Gyngor Dosbarth Ceredigion 1986 ar dalcen tŷ ar ymyl y Cwmins, na chwaith wedi cymryd fawr o ddiddordeb yn y 'bêl fawr wleb' ar gampws y coleg!
Ond os nad â'ch bys ar y ffôn y bu eich haf chi o grwydro, gobeithio i chithau gael cyfle i werthfawrogi pethe mawr a bach ein cymunedau. Bu sioeau amaethyddol mewn sawl cymuned i ddod â'r gymdeithas at ei gilydd, gan fwynhau sgiliau ffermwyr a chrefftwyr a garddwyr – heb sôn am yr holl gacennau gan gogyddion da i'n digonni! Ac wrth ddisgwyl i Eisteddfod flynyddol Llambled ddechrau tra'n ysgrifennu'r geiriau yma, dyma gyfle arall i werthfawrogi talentau celfyddydol gan rai lleol a'r rhai sydd wedi crwydro i ddod atom.

Cloncen

Mis o gofio cant

Atgoffa Cymru o gyfraniad anferth Undodwr o Geredigion
Fe fydd mis o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal i gofio am un o Gymry mwya' amryddawn yr ugeinfed ganrif, union gan mlynedd ar ôl ei eni.
Roedd D. Jacob Davies yn weinidog Undodaidd, yn fardd, yn golofnydd papur newydd i'r Cymro am ddeng mlynedd, yn olygydd, yn awdur llyfrau, yn wleidydd, yn emynydd ac, ar ben hynny, yn un o ddiddanwyr mwya' poblogaidd y wlad.
Mae'r cyfan y dod ynghyd mewn mis o Suliau o'r enw 'Jacob – Cofio'r Cant' pan fydd capeli Undodaidd y Smotyn Du yng Ngheredigion a Chymry adnabyddus o bob cornel o'r wlad yn dod at ei gilydd i gofio cyfraniad y dyn bychan mawr o ardal Llandysul.
Fe fydd y cyn-Archdderwydd T. James Jones – Jim Parc Nest – yn gwneud cyflwyniad i gofio am Jacob a chriw o ddiddanwyr amlwg heddiw – Tudur Dylan Jones, Bethan Gwanas, Karen Owen ac Euros Lewis – yn ail-greu fersiwn o'r rhaglen radio Penigamp a ddaeth â Jacob Davies i aelwydydd ledled y wlad.
Un o'r digwyddiadau mwya' cofiadwy fydd atgyfodi Côr y Fflam, y parti o bobol ifanc o gapeli'r Undodiaid a fu'n cynnal nosweithiau a gwasanaethau trwy Gymru yn y 60au a'r 70au gan ganu geiriau yr oedd Jacob Davies wedi eu cyfansoddi ar ganeuon pop y dydd.
Mae helfa ar droed i ddod o hyd i'r holl aelodau er mwyn yr aduniad mewn Cymanfa Codi Hwyl ddiwedd mis Medi. Ac, fe fydd y cyfarfod hwnnw, fel holl waith a bywyd Jacob Davies, yn gyfuniad o ddiddanwch a dwyster mawr.
Fe ddaw'r cyfan i ben gyda gwasanaeth arbennig yng nghwmni Llywydd Undodiaid gwledydd Prydain – Jacob Davies oedd y Cymro cynta' i ddal y swydd honno ym mlwyddyn ei farwolaeth, yn 1974.
“Mae'r cof am Jacob Davies yn annwyl iawn o hyd yn y Smotyn Du,” meddai Llywydd Undodiaid Deheudir Cymru, Nans Davies. “Fe fydd y digwyddiadau hyn yn help i atgoffa Cymru gyfan o'i gyfraniad mawr.”
Mae grwpiau eraill hefyd yn cofio'i gyfraniad: Merched y Wawr, er enghraifft, gan mai Jacob Davies a sgrifennodd anthem y mudiad, a'r henoed – fe fu'n olygydd ar bapur newydd The Pensioner of Wales am 18 mlynedd.
Manylion y digwyddiadau - islaw
Jacob – Cofio'r Cant
Y digwyddiadau – yn y capeli oedd dan ofal Jacob Davies
• 4 Medi, Capel Alltbylaca, 7.30pm – Penigamp, gyda Tudur Dylan Jones, Bethan Gwanas, Karen Owen, Euros Lewis a Dylan Iorwerth.
• 11 Medi, Capel y Bryn, Cwrtnewydd, 7.30pm – Cyflwyniad am fywyd Jacob, dan ofal y Parch Cen Llwyd.
• 18 Medi, Capel y Cwm, Cwmsychbant, 1.30pm – Cofio Jacob yng nghwmni Jim Parc Nest.
• 25 Medi, Capel Pantydefaid, 7.30 pm – Cymanfa Codi Hwyl gyda Chôr y Fflam ac eraill.
• 2 Hydref, Capel y Fadfa, Talgarreg, 1.30pm – Cyrddau Cymdeithas Undodiaid Deheudir Cymru – gyda chyflwyniad o eiriau'r Parch J. Eric Jones, Aberdâr.
Rhagor o wybodaeth: Megan Jones – meganjones@advantagemail.co.uk



Braf yw bod nôl yng nghegin Clonc wedi hoe yr Haf. Mae'n fis newydd, yn dymor newydd ac wrth gwrs, daw casgliad newydd o gynhwysion yr Hydref yn ffocws i'r gegin.

Faint ohonoch chi sydd â digonedd o domatos yn cochi'n braf yn y tŷ gwydr, ac wedi cael llond bol yn llythrennol o frechdanau, neu salad tomato! Angen ysbrydoliaeth? Wel, dyma gasgliad o rysetiau â thomatos yn brif gynhwysyn ynddynt.

Mae'n ddiddorol nodi mae ffrwyth yw tomato, - ac mae'n debyg bod tomatos wedi cael eu tyfu yn y gofod hefyd; rhyfedd – ond gwir! Mae'n well i'w cadw ar dymheredd ystafell: mae'r oergell yn amharu ar eu blas, ac ar y broses aeddfedu.

Pob hwyl yn twrio drwy'r tomatos
Gareth

Tarten Tomatos

Cynhwysion

1 x 375 g toes pwff 4 tomato fawr wedi'u sleisio
1 x 90 g pot o bast tomatos haulgoch (sun-dried tomatoes)
12 tomato haulgoch wedi'u darnio
1 llwy fwrdd o gnau pîn 1 x 150g o gaws Ffeta neu afr
Ychydig o deim ffres

Dull

1. Trowch y ffwrn i 200°C / 180°Fan Nwy 6.
2. Rholiwch y toes yn ddarn hirsgwar tua maint tun 'Swiss roll'.
Gwnewch fframwaith o amgylch yr ochr â blaen cyllell, a phrociwch â fforc ar weddill y toes. Pobwch am 15 munud nes ei fod yn euraidd.
3. Wedi pobi, gwasgwch ganol y toes i lawr. Gwasgarwch y past, yna'r tomatos a'r cnau pîn, tomatos haulgoch, a thafelli o'r caws, a sgeintiwch ychydig teim ffres drosodd.
4. Pobwch am 15-20 munud.

Tomatos wedi pobi

Cynhwysion:

4 tomato fawr 4 ŵy
3 llond llwy fwrdd o hufen 100g o gaws wedi gratio
Halen a phupur

Dull

1. Torrwch dop y 4 tomato, a gwaredwch gnawd y canol. Trowch ben-i-waered ar bapur cegin, a blaswch a'r halen a phupur.
2. Gosodwch mewn disgyl sydd yn addas i'r ffwrn, a thorrwch ŵy ymhob un, yna ychydig o hufen a chaws.
3. Pobwch mewn ffwrn ar wres 180°C / 350 F Nwy 4 am 15 – 20 munud.

Tart – ton - Tomatos

Cynhwysion:

200g tomatos 50g menynd
25g siwgr brown 1 llwy de hadau mwstard du
100g blawd codi Pinsied o bupur cayenne
25g caws wedi gratio 2 llwy fwrdd olew'r olewydd
2-3 llwy fwrdd llaeth Halen a phupur
Ychydig o ddail basil

Dull

1. Irwch dun flan 7 modfedd â menynd.
2. Cymysgwch y menynd, siwgr, a'r mwstard, a thaenwch ar waelod y tun, a phupur a halen.
3. Hanerwch y tomatos, a'u rhoi ben-i-waered yn y tun, ac ychydig ddail basil.
4. Rhowch y blawd, cayenne, caws, halen a phupur mewn powlen: ychwanegwch yr olew a'r llaeth, a dewch â'r cyfan i ansawdd toes. Rholiwch, a rhowch dros y tomatos, gan wasgu'r toes o amgylch yr ochr i greu fframwaith.
5. Pobwch ar wres 200°C am 15 -20 munud. Trowch allan ar blat. Gweinwch gyda salad.



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partïon



MEDI

- 3 Mike Doyle a'i Fand 'Nôl yn Llambled. Arweinydd Glan Davies yn Neuadd Lloyd Thomas, Coleg Y Brifysgol Drindod Dewi Sant Amser am 7.00y.h. Tocynnau trwy ffonio Eirian ar 07773 274411 neu 01570 422240. Elw tuag at Prostate Cancer a Man Van (Tenovus).
- 4 Dathlu canmlwyddiant geni y diweddar Barchedig D Jacob Davies - Penigamp yng Nghapel Alltyblaca am 7.30yh. Atgyfodi rhaglen radio bobolgaidd Jacob Dafis gyda dau dîm talentog ... a doniol.
- 4 Oedfa a Phicnic yn Ysgol Carreg Hirfaen am 3.30 gan Ysgol Sul Noddfa.
- 6 – 8 Cynhadledd y Senana i Chwirydd y Bedyddwyr yn Ngholeg Llambled.
- 9 Ysgol Sul Noddfa yn ail ddechrau o 4.00 hyd 5.00y.p.
- 11 Dathlu canmlwyddiant geni y diweddar Barchedig D Jacob Davies - Hanes dwy flynedd diwethaf ei fywyd yng Nghapel y Bryn am 7.30yh.
- 14 Cylch Darllen y Bedyddwyr yn Noddfa am 10.30y.b.
- 14 Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Bethel, Cwm Pedol am 7.00y.h. Pregethir gan Y Parchedig John Gwilym Jones, Caerfyrddin.
- 18 Dathlu canmlwyddiant geni y diweddar Barchedig D Jacob Davies - Cyflwyniad o'i waith gan Jim Parc Nest yng Nghapel y Cwm.
- 18 Cwmni 'Mewn Cymeriad' yn cyflwyno stori Mari Jones a'r Beibl yn festri Shiloh am 2.00y.p.
- 20 Cinio Bedyddwyr y Cylch yn y Castle Green am 7.30y.h.
- 20 Cymdeithas Hanes Llambled yn Hen Neuadd y Brifysgol am 7.30y.h. Dr Michael Freeman.
- 25 Oedfa Deulu yn Noddfa am 5.00y.p.
- 25 Dathlu canmlwyddiant geni y diweddar Barchedig D. Jacob Davies - Gymanfa Hwyl Fawr yng Nghapel Pantydefaid am 7.30yh.
- 25 Oedfa Deulu Beibl Byw - oedfa fywiog i bawb o bob oed, Noddfa, 5.00y.p.
- 26 Cwrdd Diolchgarwch Noddfa am 7.00y.h. a'r Parch Andrew Lenny yn gwasanaethu.

HYDREF

- 2 Dathlu canmlwyddiant geni y diweddar Barchedig D Jacob Davies - Cyrrdau Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru yng Nghapel Bwlchfyadfa.
- 4 Pwyllgor Buddiannau Henoed Llanybydder yn ysgol Llanybydder am 7.00y.h.
- 5 Plygu CLONC yn Festri Shiloh am 4.00y.p.
- 7 Cynhelir Noson Cyri a Chwis yn Neuadd yr Ysgol Llanfihangel Ar Arth am 7:30 yn gyda Cylch Meithrin Llanllwni.
- 9 Cyfarfod Sefydlu'r Parch Alun Wyn Dafis yn weinidog ym Mrondeifi.
- 11 Cwrdd Diolchgarwch Capel yr Erw, Cellan am 7.00y.h.
- 21 Pwyllgor R.A.B.I Ceredigion Cinio Cig Eidion yn Llanina, Llanarth.
- 25 Sefydliad Prydeinig y Galon Cangen Llanybydder a Llambled yn cynnal Noson Bingo yng Nghlwb Rygbi Llanybydder am 8.00y.h.
- 29 Pwyllgor R.A.B.I Ceredigion Bore Coffi yn Neuadd y Dref, Aberteifi.
- 27 a 29 Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion ym Mhafiliwn Bont, Pontrhydfendigaid.
- 29 Eisteddfod Gadeiriol Pumsaint. Manylion pellach wrth Mair Willaims 01558 650292.

TACHWEDD

- 2 Plygu CLONC yn Festri Shiloh am 4.00y.p.
- 4 Cyngerdd Cyhoeddi Gŵyl Cerdd Dant Llandysul a'r Fro 2017 yn Ysgol Bro Teifi, Llandysul am 7.30y.h.
- 4 Cyngerdd gan Kees Huysmans a Chôr Meibion Cwmann yn Theatr Felinfach am 7.30y.h.
- 5 Noson Tân Gwyllt C.Ff.I. Pontsian yn Neuadd D H Evans, Pontsian.
- 19 Eisteddfod C.Ff.I. Cymru yn Neuadd Brangwyn, Abertawe.
- 30 Plygu CLONC yn Festri Shiloh am 4.00y.p.

RHAGFYR

- 3-10 Pantomeim Blynyddol Theatr Felinfach.

Llanllwni

Ysgol Llanllwni

Daeth swydd Mrs Susan Pendle, fel cynorthwywraig yn nosbarth yr Adran Iau, i ben ar ddiwedd tymor yr Haf. Hoffwn ddiolch yn fawr iddi am ei gwasanaeth, ei chydweithrediad a'i chyfeillgarwch tra bu yn gweithio yn yr ysgol. Byddwn yn gweld ei heisiau yn fawr a dymunwn pob lwc iddi yn y dyfodol.

Ar ddiwedd tymor yr Haf cynhaliwyd twrnament "Dodgeball" ar iard yr ysgol er mwyn codi arian tuag at Sefydliad y Galon Prydain. Roedd y plant wedi eu rhannu i dimoedd gan gael llawer o hwyl yn chwarae yn erbyn ei gilydd. Y tîm coch oedd yn fuddugol ar ddiwedd y prynhawn. Codwyd yn agos i £300 tuag at yr achos.

Braf oedd cael croesawu Esgob Wyn Evans, Esgob Ty Ddewi, i wasanaeth boreol yr ysgol. Ar ôl iddo glywed y plant yn canu fe roddodd dipyn o'i hanes i'r plant ac fe gafodd hwythau gyfle i ofyn cwestiynau iddo. Bu'n wasanaeth diddorol iawn a diolchwn i'r ficer Susie Bale am drefnu'r ymweliad pwysig yma.

Diolch i'r Cyngor Bro am rodd o £1000 tuag at gostau bws i gludo plant yr Adran Iau i bwl nofio Llanbed am ddau dymor. Diolchwn hefyd i gwmni Statkraft am rodd o £1556 er mwyn prynu bwrdd gwyn rhyngweithiol newydd i'r Adran Iau.

Croesawn Leah i ddosbarth y Cyfnod Sylfaen yn llawn amser ac i Danyel, Zain, Oscar a Shanti sydd yn dod atom yn rhan amser. Gobeithio y byddwch yn hapus ymhlith eich ffrindiau newydd.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol-

Mis Gorffennaf –

1af - £10 – Eurig Davies, Dolydd, Dolgran Road, Pencader. 2ail - £5 – Betsan Williams, Clyniau, New Inn. 3ydd - £5 – Chris Owen, Tanybryn, Llanllwni.

Mis Awst –

1af - £50 – Bet Davies, Glynteg, Llanybydder. 2ail - £40 – Carys Thomas, Caeglas, Llanllwni. 3ydd - £30 – Macs Harris, Sunioak, Llanfihangel-ar-arth. 4ydd - £20 – Tudur George, Haulfryn, New Inn. 5ed - £10 – Iestyn Evans, Parklane, Llanllwni. 6ed - £5 – Ifor Jones, Highview, Llanllwni.

Diwrnod Hwyl Llanllwni

Ar brynawn Sadwrn 9fed o Orffennaf cynhaliwyd diwrnod hwyl Llanllwni a drefnwyd ar y cyd rhwng yr Ysgol, Cylch Meithrin a'r Clwb Ffermwyr Ifanc. Braf oedd cael trefnu gweithgaredd gymunedol a chydweithio gyda gwahanol bobol o'r mudiadau, ac ar ddiwedd y dydd gwnaed elw o £1429.81. Bydd y swm yn cael ei rannu rhwng y 3 sefydliad.

Oherwydd y tywydd gwlyb drwy garedigrwydd Mr a Mrs Eric Jones cafodd y diwrnod hwyl ei gynnal yn sied ar fferm Tirlan. Llywydd y dydd oedd Mr a Mrs Artie Evans, Llanybydder a chawsant amser wrth eu boddau yn beirniadu y gystadleuaeth wisg ffansi.

Cafwyd cwpan am y plentyn / person â'r gwisg ffansi orau o fewn pob categori, ac yn dod i'r brig oedd Osian Powell. Diolch yn fawr i Mr a Mrs Kevin Jones am noddi'r cwpan hwn.

Roedd y diwrnod yn un llwyddiannus a hoffai pwyllgor Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr Ysgol, Pwyllgor y Cylch Meithrin a'r Clwb Ffermwyr Ifanc ddiolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd at lwyddiant y dydd mewn unrhyw ffordd. A diolch i'r Cyngor Bro am noddi gwobrau'r gwisg ffansi, mabolgampau a It's a Knock Out.

Wyres fach

Llongyfarchiadau mawr i Ann a Johnny Howells, ar ddyfodiad wyres fach, Sioned - merch fach i Gary a Meinir ym Mhentrecwrt.

Eglwys Sant Luc Llanllwni Undeb y Mamau

Gorffennwyd y tymor ar Fai'r 17eg gyda gwibdaith i Gastell Picton yn Sir Benfro. Fe'n harweiniwyd o gwmpas yr adeilad hardd iawn gan dywysydd profiadol. Cawsom gyfle i grwydro'r gerddi ar ôl hynny. I ddilyn treuliwyd y prynhawn yn Arberth, cyn cael swper yn Nantyllyn. Diolch i Marion am yrru Bws y Gymuned.

Cynhaliwyd y Noson Goffi a Barbeciw blynyddol ar y noson ola o Fehefin. Yn anffodus, doedd y tywydd ddim yn ffafriol iawn, ond daeth tyrfa dda ynghyd, a diolch i bawb am eu cefnogaeth. Cafwyd eitemau hyfryd gan blant Ysgol Llanllwni, ac aelodau'r Clwb Ffermwyr Ifanc. Llywyddion y noson oedd Arwyn ac Eiryth Thomas, Llysonnen, Caerfyrddin (Gwndwn gynt), ond oherwydd anhwylder yn y teulu, yn anffodus, methont a bod yn bresennol. Diolch iddynt am eu cyfraniad hael. Yn eu habsenoldeb, cafwyd gair ar eu rhan gan eu nai, Owain a diolch iddo yntau.

Mae dwy wasanaeth bedydd wedi bod yn yr Eglwys yn ystod mis Awst, sef Dafydd Rhys Jones, mab Chris a Carys Jones Caerfyrddin, a Jac Elwyn Evans mab Nigel a Rhian, Brynhedd, Llanllwni. Pob bendith ar y ddau.

Mae teulu'r Eglwys yn dymuno anfon dymuniadau gorau i'n haelodau sy'n gaeth i'w cartrefi. Rydym yn meddwl amdanoch. Gwellhâd buan i Dilwyn Gibby a Morfudd Rees. Gobeithio'n fawr y

byddwch yn teimlo'n well yn fuan.

Clwb 100—mae'r Eglwys yn gobeithio lansio Clwb 100 yn Swper y Cynhaef ddechrau Hydref. Os oes darllenwyr yn dymuno ymaelodi mae ffurflen drwy e-bost i'w chael oddiwrth anitaevans@hotmail.co.uk neu gellwch dderbyn ffurflenni o law'r aelodau. Diolch. Bydd gwobr ychwanegol o bedwar tocyn i weld y Scarlets yn chwarae yn ystod tymor '16-'17-i ddathlu'r lansiad.

Cylch Meithrin a Ti a Fi

Croeso cynnes i Macs Harries, Tegwen Davies, Beca Davies, Rhodri Evans a Oliver Czekansa sydd wedi ymuno â'r Cylch yn ystod yr hanner tymor yma. Gobeithio byddwch yn mwynhau eich amser yno!

Ar nos Wener 7fed o Hydref cynhelir Noson Cyri a Chwis yn Neuadd yr Ysgol Llanfihangel Ar Arth am 7:30 yh.

Tocynnau ar gael.

Cysylltwch -

Ffion 07450 979360

Bethan 07779 469608

Donna 07854 072195

Croeso Cynnes i Bawb.

Cylch Ti a Fi

Newid Amser - Yn ystod tymor yr Hydref cynhelir Cylch Ti a Fi bob prynhawn Dydd Mawrth 1-3yp.

Croeso i rieni, gofalwyr, mamgu's a thadcu's i ddod gyda'i plant i gymeryd rhan mewn gwahanol weithgareddau a chyfle i gael sgwrs dros banded.

Priodas Aur

Llongyfarchiadau i Eirwyn ac Ann Davies, Dolgorse ar ddathlu Priodas Aur ym mis Awst. Dymuniadau gorau i'r dyfodol.

Ysbyty

Dymuniadau gorau am wellhad buan i David John Davies, Maes yn dilyn llaw driniaeth yn Ysbyty Treforys yn ddiweddar.

Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad llwyr a buan i Morfydd Rees, garej Llyswawr yn dilyn ei arhosiad yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Penblwydd Arbennig

Penblwydd Hapus i Margaret Jones, Coedmor ar ddathlu ei phenblwydd yn 65oed. Gobeithio eich bod wedi mwynhau y dathlu.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Cadfryn Thomas, Mayfield ar golli ei frawd yn ddiweddar a oedd yn byw yn Llanybydder.

Arholiadau

Llongyfarchiadau i Lois Thomas, Sara Thomas a Betsan Jones ar

basio ei arholiadau Lefel A. Da iawn ferched a phob lwc i'r dyfodol.

Llwyddiant Eisteddfod

Llogyfarchiadau mawr i Alwena Mair Owen, Cwmderi, Llanllwni am ddod yn ail yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy a'r Cyffiniau am ganu Unawd dan 12 oed. Da iawn ti. [Gweler llun o Alwena ar dudalen 16]

Diolch

Mi hoffai Alwena a'r teulu ddiolch o galon i bawb sydd wedi bod o gymorth iddi yn ystod y misoedd diwethaf, ac hefyd diolch yn fawr iawn am y cardia a'r galwadau ffôn yr ydym wedi ei derbyn yn ddiweddar yn dilyn ei llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy. Yr ydym fel teulu yn gwerthfawrogi hyn yn fawr iawn.

Trip Ysgolion Sul

Ar ddydd Mercher y 27ain o Orffennaf, fe aeth criw o blant ac oedolion Ysgolion Sul Salem, New Inn a'r Eglwys, Llanllwni, ar drip ar y cyd. Er bod eisiau cotiau i ddal y bws, braf yw cael dweud mae ar y bws y sefodd y cotiau, gan fod y glaw wedi cilio erbyn i ni gyrraedd Castell Cydweli.



Treuliom awr fach hamddenol yn y castell cyn symud ymlaen i draeth Cefn Sidan. Wel, am brynawn braf! Fuodd y rhai dewraf yn y môr am oriau, a chawsom sawl gêm egniol o rownderi ar y traeth, yn blant ac oedolion! Rhaid oedd cael sglodion ar y ffordd adre, wrth gwrs, a galwom yn McDonalds, (yn dilyn canlyniad y bleidlus!) am swper. Erbyn cyrraedd adre roedd sawl un wedi newid lliw – a chymharu coesau, traed a wynebaw cochion y buom yn eu wneud cyn ffarwelio! Diwrnod braf, hamddenol o ymlacio a joio yng nghwmni ein gilydd.

Llanllwni

C.F.F.I. Llanllwni

Croeso nôl i chi gyd – gobeithio eich bod i gyd wedi mwynhau gwyliau'r haf.



Nôl ar ddechrau mis Gorffennaf, aeth Siriol Howells, ynghyd â Cerys a Cao o glwb Penybont i fyny i Stafford i gystadlu yng nghystadleuaeth darllen Saesneg. Yr oeddynt fel tîm yn cynrhychioli Cymru, ac fe lwyddon nhw i ddod yn y pedwerydd safle ar lefel Cenedlaethol, allan o Gymru a Lloegr. Dim ffôl am dîm ail iaith!

Yn y sioe Frenhinol eleni roedd aelodau clwb Llanllwni yn cystadlu mewn cyfanswm o bump cystadlaethau ar ran y Sir:



Daeth Carwyn ac Arwel yn ail yn y gwaith coed [uchod].



Meryl, Siôn, Ifor a Zac yn ail yn y gystadleuaeth 'It's a Knockout' [uchod].



Siriol, Ceris a Meryl, yn drydydd yn creu pecyn cinio dathlu.

Yn ogystal roedd Hefin yn cystalu yng nghystadleuaeth creu 'time-capsule' a Ifor a Betsan yn y treialon cŵn defaid. Da iawn chi gyd a gobeithio eich bod wedi mwynhau'r profiad.



Hefyd yn y sioe, draw yn y pentref ieuencid, roedd yna gystadleuaeth addurno carafan – a braf dweud bod Hefin a'r criw wedi dod yn fuddugol am yr ail flwyddyn yn olynol! Da iawn chi – roedd ôl wythnosau o waith ar eich cread!

'Rydym wedi cynnal ein cyfarfod blynyddol dros yr haf, a dyma restr o'r swyddogion newydd am y flwyddyn sydd i ddod:-

Cadeirydd – Ifor Jones, Highview.

Is-gadeirydd – Arwel Jones, Blaenblodau. Ysgrifennyddes – Catrin Evans, Glasydorlan. Trysorydd – Betsan Jones, Highview. Ysgrifennyddes cofnodion – Sioned Howells, Pantglas. Gohebydd y wasg – Siriol Howells, Pantglas. Llywyddion – Alun ac Aileen Davies, Bryn Y Coed.

Cofiwch gael copi o'ch papur lleol y mis nesa eto i gael holl hanes y sioe a threialon. Welwn ni chi whap!

Cystadleuaeth

Mae'n ddeng mlynedd ers i John ac Alun rhyddhau record hir newydd, ac fel mae'r teitl yn awgrymu, mae 'na chryn ddisgwyl wedi bod amdani. Yn rhannol, y rheswm am yr oedi yma oedd dymuniad yr hogia i lywio pob agwedd o'r gwaith, hynny o safbwynt pa ganeuon i'w recordio, pa fath o deimlad ddylai fod arnyn nhw a pha fath o gynhyrchiad fyddai'n siwtio orau.


Yng nghartre' Alun yn Nhudweiliog recordiwyd y cwbl, dros gyfnod o ddwy flynedd. Alun sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r trefniadau â'r offerynnau ar y record yma hefyd, ac fel mae John yn esbonio, "roedd yn braf cael picio draw bob hyn a hyn i wrando ar y trefniadau ac i roi'r llais i lawr ac ati - a hynny mewn ffordd hamddenol tros gyfnod estynedig.

Yn gyffredinol, mae'r record yma yn pwysu llai ar y sŵn canu gwlad ac yn symud yn fwy tuag at gymysgedd o ganeuon acwstig a hyd yn oed roc. Yn ôl Alun, daw'r newid pwyslais yma yn rhannol o ganlyniad i geisio cyfleu'r stori neu'r neges o fewn y caneuon eu hunain a hefyd fel canlyniad i'r rhaglen 'John ac Alun' a glywir pob nos Sul ar Radio Cymru. "Mae'r rhaglen yn helpu ni wrando ar stwff newydd ac ehangu ein gorwelion" meddai Alun, "a hefyd i werthfawrogi bod angen datblygu a chynnig rhywbeth gwahanol."

Bydd lansiad swyddogol y recordiad yn Galeri, Caernarfon ar y 9fed o Fedi. Bydd John ac Alun yn rhannu llwyfan efo Gethin Vaughan a Glesni Fflur, ac mae Glesni hefyd yn cyfrannu llais cefndir i'r record newydd. "Tra bod y broses wedi bod yn araf a rhwystredig ar adegau, mae wedi bod yn brofiad gwych" meddai Alun. "Mae'r casgliad yma yn cyfleu ble mae John ac Alun wedi cyrraedd yn gerddorol erbyn heddiw – dim ond gobeithio y bydd yn plesio ac y caiff y gwrandawyr bleser o wrando ar y caneuon!"

Mae Cwmni Recordiau Aran yn cynnig copi o 'Hir a Hwyr' wedi ei harwyddo gan John ac Alun, i un o ddarllenwyr Iwcus Clonc. Er mwyn cymryd rhan yn y gystadleuaeth yma, gyrrwch e-bost i'r cyfeiriad canlynol: cwis@traciaucymraeg.com, gan nodi eich enw, eich cyfeiriad, enw'r papur bro sef Clonc, ac atebwch y cwestiwn canlynol:

Ymhle recordiwyd 'Hir a Hwyr'?



Dyma grynodeb o hanes Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion yn y misoedd diwethaf.

Diwrnod Chwaraeon C.Ff.I. Cymru

Llongyfarchiadau i'r aelodau a fu'n cynrychioli'r Sir yn Niwrnod Chwaraeon C.Ff.I. Cymru ar gampws Prifysgol Aberystwyth ar y 26ain o Fehefin. Er fod y tywydd braidd yn ddiflas, bu'r aelodau'n cystadlu'n frwd drwy gydol y dydd ac fe ddaeth cryn dipyn o lwyddiant i Geredigion! Llongyfarchiadau i glwb Troedraur a ddaeth yn fuddugol yn y gystadleuaeth Frisbee ac aeth ymlaen i gynrychioli Cymru ar lefel cenedlaethol. Fe ddaeth clwb Tregaron yn 2il yn y gystadleuaeth rownderi, ac yn 3ydd yn y gystadleuaeth Hoci cymysg. Llongyfarchiadau hefyd i glwb Mydroilyn a ddaeth yn 3ydd yn y gystadleuaeth Rygbi 'touch' cymysg. Da iawn hefyd i glwb Llanwenog am gynrychioli'r sir yn y gystadleuaeth Pêl-droed â Phêl-rwyd.

Penwythnos Cystadlaethau Cenedlaethol NFYFC

Llongyfarchiadau i'r aelodau a gynrychiolodd y Sir a Chymru yn Stafford yn Niwrnod cystadlaethau cenedlaethol NFYFC. Daeth cryn dipyn o lwyddiant i'r Sir wrth i'r tîm Sioe Radio Byw ddod yn 3ydd, sef Carwyn Hawkins, Alaw Jones a Caryl Morris a'r tîm Frisbee o glwb Troedraur yn 4ydd.

Canlyniadau'r Clwb 200

Mis Gorffennaf

1af Teulu Hafan, Llanddeiniol, Llanrhystud, Aberystwyth

2ail Rhian Evans, Bronwydd, Coedybryn, Llandysul

3ydd Margaret George Evans, Maesteg, Tregaron

C.Ff.I. Ceredigion ar y brig yn Sioe Frenhinol Amaethyddol Cymru

Bu aelodau C.Ff.I. Ceredigion yn disgleirio gydol yr wythnos ac yn mwynhau yn y Sioe Frenhinol. Ar ôl wythnos o gystadlu brwd rhwng y Ffederasiynau daeth llwyddiant ysgubol i Sir Geredigion a braf nodi fod yna gynrychiolaeth o 16 o glybiau'r Sir wedi cyfrannu at y llwyddiant. Dyma'r canlyniadau:

Arddangosfa Ffederasiwn – 1af: Mydroilyn

Pecyn Cinio C.Ff.I. – cydradd 3ydd: Marek a Carys Owen ac Elin Williams, Lledrod

Top of the Pops – 1af: Unigol - Huw Bryant, Pontsian 7fed; Grŵp - Llanwenog – 1af



Aelodau clwb Llanwenog yn cynrychioli Ceredigion ac yn ennill y Cwpan yn y gystadleuaeth Top of the Pops.

Cneifio – 2il: Rhys Douglas, Bro'r Dderi 3ydd 21 oed neu iau a Rhys Lewis, Trisant 4ydd 26 oed neu iau

Trin Gwlân – 8fed: Llŷr Evans, Lledrod

It's a Knockout – 1af: Llanwenog

Barnu Moch Cymreig – 2il: Elen Jones, Penparc 10fed 16 oed neu iau; Dewi Davies, Llanddeiniol cydradd 5ed 18oed neu iau; Ifan Morgan, Penparc 4ydd 21 oed neu iau a Llŷr Jones, Penparc 2il 26 oed neu iau

Gwisgo i Fyny – 1af: Elin Williams a Siwan George, Lledrod

Dawnsio – 4ydd: Felinfach

Treialon Cŵn Defaid Dall – 2il – Steffan Thomas a Thomas Morgan, Tregaron

Cystadleuaeth yr Aelodau – 1af: (Crefft, Coginio a Blodau)

Blodau – 2il: Cari Davies, Tregaron

Coginio – 6ed: Ffion Jenkins a Gethin Hatcher, Llanwenog

Crefft – 1af: Carwyn Davies, Llanwenog

Barnu Defaid Lleyn – 5ed: Steffan Rattray, Trisant cydradd 3ydd 16 oed neu iau; Gwion Morgan, Penparc 7fed 18 oed neu iau; Ifan Morgan 3ydd 21

oed neu iau a Dyfrig Williams, Llangwryfon 7fed 26 oed neu iau.

Ail greu Hysbyseb – 2il: Llanddewi Brefi

Sioe Ffasiwn – 1af: Catrin Evans, Carwyn Jones a Dafydd Roberts, Mydroilyn.

Rygbi – 3ydd

Tynnu'r Gelyn – 3ydd: Bechgyn Llanwenog 3ydd; Merched Llanddewi Brefi 6ed a Thîm Iau Llanwenog 4ydd

Coedwigaeth – 1af: Gareth Harries a Llion Thomas, Llanddeiniol

Barnu Gwartheg Jersey – 1af: Ieuan James, Troedraur 2il 16 oed ac iau; Elin Rattray, Trisant cydradd 2il 18 oed ac iau; Ifan Wilson, Penparc 2il 21 oed neu iau a Fflur Davies, Penparc 2il 26 oed neu iau

Gêm yr Oesoedd Retro – 2il: Elen Davies a Megan Colbourne, Troedraur

Dyfarnwyd bod Ceredigion yn ennill tlws coffa R.L.Jones am y mwyaf o farciau yn yr Adran Beirniadu Stoc dros y tair cystadleuaeth.

O ganlyniad i'r holl lwyddiannau hyn sicrhawyd bod Ceredigion yn gyntaf gyda record o 140 o bwyntiau ac yn ennill cwpan NFU gyda Sir Frycheiniog yn ail (128 o bwyntiau) a Sir Gâr yn drydydd (120 o bwyntiau). Canlyniad gwych! Llongyfarchiadau mawr i'r holl aelodau.

Splash ar dân 2016

Wrth i brysurdeb y Sioe Frenhinol ddod i ben, roedd hi'n amser ar gyfer y penwythnos o Splash, ar Fferm Maesllyn, Tregaron. Roeddwn yn lwcus iawn o'r tywydd gyda'r haul yn tywynnu'n braf dros ein pennau drwy gydol y ddau diwrnod. Ar y nos Wener, roedd pawb wedi mwynhau mas draw yn nhwmpath dawns yng nghwmni Erwyd a Bryan Yr Organ – tipyn o hwyl yn wir. Roedd yr arddangosfa Tân Gwylt yn anhygoel a phawb wedi mwynhau y diwrnod cyntaf o gymdeithasu. Ar y dydd Sadwrn, roedd yna nifer o ddigwyddiadau ar gyfer y teulu cyfan. Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd rhan yn y Duathlon. Llongyfarchiadau i CFFI Llangwryfon am ddod yn fuddugol yn 'It's a Knockout' Iau, gyda Felinfach A yn 2il, a Felinfach B yn drydydd. Llongyfarchiadau hefyd i Glwb Llanddewi Brefi am ennill 'It's a Knockout' hŷn. Diolch i Eifion Morgans, Gethin Thomas a Geraint Hatcher am drefnu. Diolch hefyd i bawb oedd yn gyfrifol am gerddoriaeth y nos ac am yr adloniant. Diolch i'r holl wirfoddolwyr a'r noddwyr am eu cymorth yn ystod y paratodau, ac yn sicr i Deulu Maesllyn am y cyfleusterau gwych. Wrth i Splash ddirwyn i ben, hoffwn fel mudiad ddiolch i bawb am eu cefnogaeth a gobeithio yn fawr eich bod wedi mwynhau mas draw yn ein cwmni.

Dechrau Mis Awst, roedd yna gystadleuaeth Tynnu'r Gelyn a llongyfarchiadau mawr i dîm Tynnu'r Gelyn Llanwenog ar ddod yn 3ydd ar lefel Cenedlaethol.

Digwyddiadau sydd i ddod:

19eg Hydref – Pwyllgor Gwaith ac Is-bwyllgorau'r Sir – Hyrwyddo Teithiau Tramor

27-29ain Hydref – Eisteddfod y Sir – Pafiliwn Bont

6ed Tachwedd – Cyfeliadau Teithiau Tramor CFFI Cymru

9fed Tachwedd – Hyfforddiant Barnu Carcas – Dunbia

16eg Tachwedd – Pwyllgorau'r Sir

19eg Tachwedd –

Eisteddfod

CFFI Cymru yn

Neuadd Brangwyn,

Abertawe.

Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

CYMRAG Ariennir
yn
rhanol
gan
**Lywodraeth
Cymru**

Sue's Hair Stylist



- Edfafu
- Trin ewinedd
- Trin traed



- Triniaeth hwyneb
- Lliwio ael a lliwio blew llygald

Cynigion arbennig yn yr ystafell driniaeth newydd



Ystafell driniaeth newydd ar agor nawr!!

- Tyllino pen Indiaidd
- Tyllino Sweden
- Tyllino cerrig poeth a llawer mwy o driniaethau

Dewch i brofi tyllino pen Indiaidd a fydd yn eich rhyddhau o straen a thensiwn, ac yn eich gadael yn teimlo yn hamddenol, wedi adfywio ac ail fywiocau

Cysylltwch â:
Sue Hairstylist
Pencader
Rhif ffôn - 01559384794

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llambled
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244



Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349



Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:

* Blinder / diffyg egni

* Meigrin

* Sdrauca

* Irritable Bowel Syndrome

* Menstrual problems

* a mwy

Os am ragor o wybodaeth cysylltwch â Carol Rees

01545 590164

07929 559561

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

The Wash Tub

Heol y Gogledd
(gyferbyn â'r gofologofn)
01570 423647

Gwasanaeth o safon uchel:
smwddio, golchi, sychu
a glanhau.

Ac yn golchi duvets.



Mis y Papur Newydd

Colofn Dylan Iorwerth

Mis Jacob – croeso i bawb

Gan milltir o'r fan hyn y clywais i gynta' am Jacob Davies, heb wybod fawr ddim am y dyn, dim ond gwybod na chafodd feirniadu yn Eisteddfod Bethel, Waunfawr, flynyddoedd cyn fy ngeni fi.

Yn y dyddiau hynny, roedd eisteddfod y capel mawr oedd yn gysgod dros ein cartre' ni yn eisteddfod dridiau, a'r tridiau hynny'n arwain at ddydd Sul y Cyfarfod Pregethu ... y cyrdde mawr.

Y traddodiad oedd fod y Beirniad Llên ac Adrodd hefyd yn cymryd at y pulpud ar gyfer y gwasanaeth hwnnw, gwasanaeth pwysica'r flwyddyn. Roedd pawb yn gwybod mai gweinidogion oedd beirniaid llên ac adrodd.

Beth bynnag, oherwydd fod Jacob Davies yn Undodwr, doedd Methodistiaid pybyr ein capel ni ddim yn fodlon iddo fynd i'r pulpud. Dim pulpud, dim beirniadu. Dim beirniadu, dim Jacob Davies ... heblaw, am y tro cynta', yn oriel enwau cyfarwydd Dylan Cartrefle.

Oherwydd hyn i gyd, mi fydd hi'n bleser mawr cael bod yn rhan o fwy na mis o weithgareddau i ddathlu canrif ers geni'r 'dyn bach' o Dregroes ... bob Sul ym mis Medi ac wedyn yn fersiwn yr Undodiaid o gyrddau mawr, fe fydd digwyddiadau i gofio Jacob.

Dw i am drio cadeirio sesiwn pan fyddwn ni'n atgyfodi fersiwn o'r rhaglen radio Penigamp ... yr ail dro i fi ddod yn ymwybodol o Jacob Davies oedd clywed ei ffraethineb yn cadeirio'r rhaglen a chadw trefn ar rai fel Dic Jones, Tydfor, Marie James a Cassie Davies.

Tîm y De oedden nhw ac roedd yna dîm o'r Gogledd hefyd, yn gwneud rhaglen am yn ail ... ond waeth cyfadde', er fod un o'r Gogleddwyr yn dod o Waunfawr, tîm y De oedd y gorau. A dweud y gwir, tîm Ceredigion oedd o, a phob un o'r pedwar yn enghreifftiau o ffraethineb y rhan fach yma o'r wlad.

Mi fydd hi'n fwy cyfartal yn ein fersiwn ni o'r rhaglen, gyda thîm menywod o'r Gogledd yn herio tîm dynion o'r De ... y bardd Karen Owen a'r awdures Bethan Gwanas yn erbyn y dramodydd-gerddor-sgriptiwr Euros Lewis a disgynydd Parc Nest, Tudur Dylan Jones.

Honno fydd y noson gynta', yng nghapel Alltyblaca, ac fel gyda'r gweddill o'r digwyddiadau, fe fydd croeso mawr i bawb, o bob enwad ... hyd yn oed y Methodistiaid! Fe fydd tâl bychan a'r elw'n mynd at ddwy elusen sydd wedi eu dewis gan ferched Jacob, Hawys a Heini.

Efo'r nosweithiau eraill, y broblem oedd dewis pa elfen o dalent Jacob Davies i'w coffáu ... yn ogystal â bod yn weinidog yn y Smotyn Du, roedd yn olygydd, yn fardd, yn wleidydd, yn ddigrifwr, yn emynydd ac yn feddyliwr craff.

Mae yna glod mawr eisoes wedi bod i ymgais Cen Llwyd i ddal y dyn, mewn cyflwyniad i gofio 40 mlynedd ers marwolaeth Jacob yn 1974; fe fydd fersiwn newydd, gwahanol, o hwnnw'n cael ei berfformio ar yr ail nos Sul, 11 Medi, yng Nghapel y Bryn, Cwrtnewydd.

Mae'n siŵr y bydd y cyn-Archdderwydd Jim Parc Nest hefyd yn ceisio cwmpasu rhai o'r agweddau amrywiol mewn sgwrs brynhawn Sul 18 Medi yng Nghapel y Cwm ... mae'r pedwar digwyddiad arbennig yn y capeli oedd dan ofal Jacob.

Mae'n siŵr o sôn am ei dalent ysgrifennu, ac amrywiaeth y dalent honno, o ddarnau digri i farddoniaeth ddwys, o fersiynau llafar o rai o'r damhegion i rai o emynau gorau'r iaith ... mae Dyn i ddyn ar bum cyfandir a'r ddwy set o eiriau mawr sydd ganddo i'r dôn Sibelius yn crynhoi'r math o wladgarwch byd-eang sydd ei angen arnon ni.

Yr emynau – ac ambell ddarn arall – fydd canol y pedwerydd digwyddiad, nos Sul 25 Medi, yng Nghapel y Fadfa Talgarreg. Cymanfa Codi Hwyl fydd honno a theyrnged i'r gwaith arloesol wnaeth Jacob yn gweithio gyda phobol ifanc.

Côr y Fflam oedd y symbol o hynny, yn canu geiriau newydd gan Jacob Davies ar alawon pop y dydd. Fydd y côr ddim cweit mor ifanc ag yr oedden nhw ond, fel talent y dyn ei hun, fe fyddan nhw'n dal i ysbrydoli.

Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwyio cyflawn
ar gyfer pob achlysur:

Hefyd yn Ystafell Weinï cysurus
Clwb Rygbi Llambled yn gwneud:

• Bwyd Priodas

• Bwffe

• Te Angladd

• Digwyddiadau Maes

- Cinio Dydd Sul 12.00 – 2.00

- Partion pen-blwydd ayb

- Ciniawau - Cyfarfodydd

- Bwyd Bedydd - Te Angladdau

*Bwydlenni unigol i ateb eich
gofynion chi – boed yn fawr neu'n fach*



Peiriant
Rhostio
Mochyn
ar gael

Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:

Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.

Os hoffech
gynorthwyo'r
gwirfoddolwyr
gyda'r gwaith o
gynhyrchu'r papur
hwn, croeso i chi
gysylltu ag un o'r
bwrdd busnes.

Richard Jarman Dip CII, Cert CII(MP)

Partner Rheoli Cyfoeth

01239 613746

07816 923618

Ffordd newydd i reoli eich cyfoeth.

Cynllunio Cylludol | Cynilo a Buddsoddi | Yswiriant a Diogelu | Yswiriant Cartref
Cynllunio ar gyfer Ymdddol | Taliadau Treth | Yswiriant Bywyd | Rheoli Ystad | Morgeisi

Am gyngor ariannol annibynol

Dros bum mlynedd ar hugain o brofiad

Siambre Pendre, 20 Pendre, Abertiefi, Ceredigion. SA43 1JT

07816 923618 ☎ 01239 613746

richardjarman@tpllp.com www.richardjarman.tpllp.co.uk

Rhifyn Hydref

Yn y Siopau

Hydref 6ed

Erthyglau, Newyddion
a Llundiau i law erbyn

Medi 26ain

Cefn Hafod
Gorsgoch

Cyri bob nos Wener,
 £6 y pen

Prydiau bwyd ar gael drwy'r
 wythnos

Nos Lun— Nos Sadwrn

Bwyd Cartref a Chwrrw da.
 Croeso cynnes i bawb!
 01570 434 238

W.D. Lewis
o'r Fab

Melín Mark Lane Mill
 Llanbedr Pont Steffan
 Ceredigion SA48 7AG
 Tel: 01570 422540
 Fax: 01570 423644
 www.wdlewiss.co.uk

Hefyd yn
 Broneb Stores
 Pumsaint, Llanwrda
 Tel: 01558 650215

Cegin Coedlannau

*'Bwyd cartref ar gyfer
 pob achlysur'*

* Caccennau pen-blwydd gyda llun
 (ffotograff)
 * Bwffe mawr neu fach
 * Dantethion i de
 * Pwdinau
 * Arlwyd ar gyfer pob achlysur

Sirian Davies, Coedlannau
 Fach, Cwrtnewydd,
 01570 434 243
 07815 962 045

Alec Page
Gof

Gwaith metal o safon
 i'r tŷ a'r ardd.
 Dewch i drafod eich syniadau.
 Yr Efail, Barley Mow,
 Llambled.
01570 423955
 www.alecpageblacksmith.co.uk

**WILLIAMS
 & BOURNE**

CYFREITHWYR.
 COMISIYNNWYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
 gwasanaeth cyfreithiol.
 Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

**1 Sgwâr Harford,
 Llambled**

01570 422206 01570423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder,
 Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

Cymeriadau Bro

gan Delyth Morgans Phillips



Ann Bowen Morgan

Menyw ddwâd i Lamedd yw Ann Bowen Morgan. Dim ond ers pum mlynedd y mae hi yma'n byw, ond mae ei brwdfrydedd cymdeithasol a'i gweithgarwch amrywiol hi'n golygu ei bod wedi hen ymsefydlu yn y dre. Prin yw'r sefydliadau diwylliannol a'r cymdeithasau Cymraeg nad yw hi'n aelod ohonyn nhw! Ac nid aelod ar yr ymylon yn unig, ond y mae Ann yn ymroi i bopeth y mae hi'n gredu ynddo.

Brodor o'r Rhyl yw Ann. Ond er bod acen y gogledd yn reit gryf arni, nid yn y Rhyl y mae gwreiddiau ei theulu. Roedd ei thad, y bardd Leslie Harries, yn frodor o Ystalyfera, a'i mam, Enid, o Lanelli. O ddidordeb lleol i ddarllenwyr Clonc, bu tad Ann yn athro yn Ysgol Ramadeg Llandysul, ac ef ysgrifennodd emyn yr ysgol. O ddidordeb cenedlaethol, ef yw awdur geiriau'r gân enwog 'O Gymru' (y gerddoriaeth wedi'i chyfansoddi gan Rhys Jones). Mae Ann yn un o dri: roedd Huw, ei brawd hynaf a fu farw fis Mehefin eleni, yn athro ysgol, a brawd arall iddi yw'r actor Wyn Bowen Harries. Mae'r Bowen yn enw'r teulu yn bwysig iddyn nhw, sef tylwyth Boweniaid Treorci, sy'n cynnwys y prifeirdd Euros a Geraint Bowen, y ddau ohonynt yn gefndryd i Enid, ei mam. Roedd ei thad-cu, David Bowen neu 'Myfyr Hefin' hefyd yn fardd, fel Ben Bowen, ei frawd, a fu farw'n ifanc iawn.

Wedi derbyn ei haddysg yn ysgol gynradd Dewi Sant ac ysgol uwchradd Glan Clwyd, aeth Ann i'r brifysgol ym Mangor i astudio'r Gymraeg a Cherddoriaeth ac Addysg. Yn ogystal ag ennill gradd, enillodd gariad a ddaeth yn ŵr iddi maes o law – Densil Morgan, o Dreforus, a oedd ar y pryd yn fyfyrwr diwinyddiaeth. Priodwyd Densil ac Ann yng Nghapel Carmel, Y Rhyl, 7 Ebrill 1977.

Tra bod Densil yn parhau â'i astudiaethau, ac wedyn yn weinidog gyda'r Bedyddwyr, cyn dychwelyd i'r byd academiaidd i weithio, mae'r ddau ohonynt wedi byw mewn sawl ardal: Llysfaen ger Bae Colwyn; Rhydychen; Pen-y-groes, sir Gaerfyrddin; Llanddaniel-fab, Ynys Môn, a Bangor. Ar ôl dwy flynedd ar hugain ym Mangor lle bu Densil ar staff y brifysgol yno, daethant i Lamedd pan benodwyd Densil yn Athro Diwinyddiaeth ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Maent yn byw yn Y Gilfach ar Heol y Gogledd er 2011.

Mae bod yn wraig gweinidog yn job ynddi'i hun, ond y mae Ann wedi llwyddo i fod yn wraig gweinidog gydwybodol, dal gyrfa fel athrawes ysgol gynradd (a chyfnod yn dysgu mewn ysgolion uwchradd), a magu teulu. Mae'r teulu yn amlwg yn golygu llawer i Ann ac i Densil. Cawn weld y plant a'r wyrion yn aml ar wyliau yn Llambled, ac mae'u lluniau yn britho welydd y Gilfach – ac erbyn hyn, eu tudalennau facebook hefyd. Mae'r ferch, Angharad, a'i gŵr Robin, yn byw ym Mangor, gyda'r tri bach – Alisha, Cai ac Elis – ac mae Iwan, y mab, yn byw yn Northleach ger Cirencester, gyda'i gariad Emily.

Mae Ann yn Gristion. Ers ei dyddiau'n y coleg, mae hi wedi gwasanaethu'i Harglwydd gydag awch a chariad. Hi yw ysgrifennydd eglwys y Bedyddwyr yn Noddfa, Llambled, ac mae aelodau'r eglwys a'r cylch ehangach

wedi elwa'n fawr o'i doniau a'i hanwyldeb. Mae aelwyd y Gilfach yn hafan i sawl un ohonom fynd yno i rannu llawenydd neu i ollwng gofid – ac mae paned a chwts a sgwrs gyda'r ddau yn well moddion na'r un. Daw ei gofal mamol a'i phrofiad o fod yn wraig gweinidog yn amlwg yn ei chonsyrn dros eraill.

Nid Cristion sy'n edrych nôl a hiraethu am y dyddiau a fu mohoni chwaith. Yn hytrach, ei gweledigaeth a'i brwdfrydedd hi, ynghyd ag eraill, sydd wedi cychwyn ar yr Oedfaon Teulu a gynhelir yn Noddfa yn weddol reolaidd.

Dyma'i hymngais i ymestyn allan i deuluoedd – ac yn arbennig i ieuenctid – gan wneud y Beibl a'r ffydd Gristnogol yn rhywbeth real i bawb yn y fro. Mae'r brwdfrydedd a'r hwyl sydd yn Noddfa yn nodweddiadol o bersonoliaeth a gweledigaeth rhai fel Ann a Densil. Ar aelwyd y Gilfach hefyd y cynhelir Astudiaethau Beiblaidd y cylch – gweithgaredd syml ac anffurfiol i drafod y Beibl dros baned o de, sydd eto'n ymestyn at bawb, gan gynnwys rhai na fyddai o bosib yn gyfforddus i gael yr 'hymn sandwich' traddodiadol yn y capel ar y Sul. Mae Ann wedi'i bendithio â dawn gerddorol. Llais alto sydd ganddi: fe'i clywir yn canu'r llinell

alto yn yr oedfaon ar y Sul, ac mae'n aelod ffyddlon o gôr Corisma. Gall ganu'r piano a'r delyn, ac mae'r ddau offeryn yn cael cartref da a defnydd cyson ar yr aelwyd. Mae hi hefyd yn rhoi gwersi piano i ddisgyblion, ac mae hi'n amlwg yn cael gwefr o weld datblygiad cerddorol y plant sy'n dod ati i'r Gilfach. Peth arall sy'n rhoi gwefr iddi yw cynnal dosbarthiadau Cymraeg i oedolion. Mae ganddi'r amynedd a'r ddawn i drosglwyddo'r Gymraeg i'r rhai sy'n dymuno dysgu'r iaith. Bu Ann yn weithgar y ddau dro y cynhaliwyd Ras yr Iaith, ac mae'n un o'r rhai mwyaf gweithgar gyda Phlaid Cymru yn lleol – byddwn yn aml yn ei gweld hi a Macsen y ci yn crwydro'r strydoedd i rannu taflenni a chanfasio. Hi hefyd sy'n trefnu'r nosweithiau cymdeithasol, gan ddenu cantorion poblogaidd i Lamedd fel Tecwyn Ifan, Gwenan Gibbard a Meinir Gwilym, ac yn trefnu'r nosweithiau cyrri llwyddiannus.

Mae Ann newydd fod yn llywydd cangen Llambled o Ferched y Wawr, ac mae ganddi ffrindiau lu yn y mudiad. Mae'n gynghorydd y dre oddi ar 2012 ac yn gwneud ei marc yn y cyfarfodydd, gan sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei phriodol. Bu'n flaenllaw yn yr ymgais i gael yr Eisteddfod Genedlaethol i ddod i'r cylch yn 2020 a hefyd mae hi wedi ymuno â phwyllgor Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen Llambled. Efallai ei bod hi wedi ymddeol o'i gwaith fel athrawes ysgol, ond dyw hi ddim yn un i eistedd nôl a llaesu dwylo.

Un o nodweddion amlwg Ann yw ei gallu i sgwrsio â phawb. Annhebygol y gall neb ddweud ei bod hi'n swil – ac rwy'n dweud hynny yn yr ystyr orau! Anaml y gwelwn hi heb wên ar ei hwyneb. Dyw hi ddim yn un sy'n dal dig nac yn pwdu. Does dim byd mawreddog amdani; mae'n un fach bwt o ran taldra, ac er ei bod yn naturiol urddasol, does dim gwynt yn perthyn iddi.

Ie, menyw ddwâd yw Ann i Lamedd, ond gwraig weithgar sydd eisoes wedi llwyddo i gyfrannu'n helaeth at fywyd Cymraeg y fro.



Gorsgoch

Neuadd yr Hafod, Gorsgoch

Clwb cefnogwyr
Mis Ebrill - 1af Manon Morgans 2il Ernie Hatcher
Mai - Emma Bird a Elin Haf Jones Mehefin - Gwyneth Williams a Ieuan Jones
Gorffennaf - Huw Morgans a Lewis Williams
Awst - Ernie Hatcher a Nia Wyn Davies.

Priodas Dda

Ar Sadwrn cyntaf mis Medi bydd Enfys Hatcher, Cefn Hafod yn priodi â Emyr Davies, Aberdauddwr, Llanddewi Brefi yng Nghapel yr Hafod, Gorsgoch ac yna'r wledd i ddilyn yn Neuadd yr Hafod. Dymuniadau da a iechyd i chwi am flynyddoedd lawer.

Sioe Gorsgoch a C.Ff.I. Llanwenog

Cynhaliwyd 36ain Sioe Amaethyddol, Cynnyrch, Ceffylau a Hen Beiriannau Gorsgoch a C.Ff.I. Llanwenog ar gaeau Glwydwern, Llanwnnen, trwy garedigrwydd Elfyn a Sharon Morgans ar ddydd Sadwrn, 20fed o Awst. Prif elusen y sioe eleni oedd Uned Niwroleg Ysbyty Morriston.

Ynghyd â'r cystadlaethau yn y babell ac ar y cae, cafwyd arddangosfa o gynnyrch alpaca gan 'Bird Farm Alpacas', paentio wynebâu ac ocsiwn lwyddiannus iawn yng ngofal Eifion Morgans. Yna, cafwyd noson o adloniant gan Dave ('Dai Karaoke') Richards. Roedd hi'n noson llawn chwerthin a joio.

Er mawr foddhad i aelodau'r pwyllgor a chefnogwyr y sioe, ac er gwaetha'r rhagolygon tywydd am dywydd stormus, cafwyd ysbeidiau heulog a sioe lwyddiannus iawn o ran niferoedd a safon y cystadlu. Cyflwynwyd y gwobrau gan y Llywyddion, Mr a Mrs Daff Davies, Bwthyn, Brynteg, i'r canlynol:



CEFFYLAU: Ceffylau mewn llaw – Pencampwr – Eirian Thomas, Llysfaen (Llanwnnen Awel Mai).
Is-bencampwr – Phillip Jones (Parc y Bedw Sparkling Diamond); **Marchogaeth** – Pencampwr – Rhiannon Evans (Beros St George). **Is-bencampwr** – Ela Harries, Plwmp (Briggy);
Hynodion y Ceffylau – Ela Harris, Plwmp (Briggy); **Pencampwr yr adran geffylau, ac yn derbyn cwpan**

Yn y Sioe Frenhinol

Elfyn Morgans, Glwydwern, Gorsgoch yn dangos ei hwrdd dwyflwydd oed ac Eirwyn Richards, Pumsaint gyda'i ddafad blwydd Penfrith Beulah a gipiodd y Gilwobr yng nghystadleuaeth rhyngfrid y paruau.

Hang-On yn roddedig er cof am Tim a Dorothy Thomas, Ffynon Rhys – Eirian Thomas, Llysfaen, gyda Llanwnnen Awel Mai.

DEFAID: Defaid Llanwenog – Pencampwr – Huw Evans, Alltgoch. **Is-bencampwr** – Teulu Clettwr, Talgarreg. **Gwobr Cymdeithas Defaid Llanwenog** – Huw Evans, Alltgoch. **Defaid Speckled – Pencampwr ac Is-bencampwr** – Jones, Blaenblodau. **Defaid Continental – Pencampwr** – Huw a Bronwen Evans, Glantren Fach, Llanybydder. **Is-bencampwr** – Teulu Williams, Tynllyn. **Unrhyw frîd "Lowland" arall** – Pencampwr – Davies, Bwlchmawr. **Is-bencampwr** – Teulu Morgans, Glwydwern. **Unrhyw frîd mynyddig arall – Pencampwr** – Davies, Llwynfedw. **Is-bencampwr** – Crimes, Gafryw. **Oen i'r cigydd – Pencampwr ac Is-bencampwr** – John Jones, Penrheol, Cwmsychpant. **Pencampwr y Pencampwyr yr adran ddefaid, ac yn ennill cwpan her Wyn Morgans, Glwydwern** – Huw a Bronwen Evans, Glantren Fach, Llanybydder. **Arddangosydd gorau** – Jac Davies, 4 Rhydybont. **Barnu Wyn Tew C.Ff.I** – Beca Jenkins, Hafan y Cwm, Cwmsychpant.

HEN BEIRIANNAU: Pencampwr, ac yn ennill cwpan her Jim Evans, Fronwen – Peter Davies, Derwen Deg, Drefach.

GWARTHEG BÎFF: Pencampwr – Jones a Davies, Penhill, Penrhiwllan. **Is-bencampwr** – Morgans, Glwydwern.

GWARTHEG GODRO: Pencampwr – Andrew Davies, Abertegan, Brynteg. **Is-bencampwr** – Teulu Williams, Clyncoch, Cwrtnewydd. **Enillydd y fuwch neu treisiad odro orau o fuches di-linach, ac yn derbyn Cwpan Her Ffynnonrhys** – Cennydd Jones, Rhydowen, Pontsian.

DOFEDNOD: Pencampwr – Paul Williams, Clyncoch, Cwrtnewydd.

Y BABELL: Cynnyrch Gardd – Aeron Davies, Cribyn; **Coginio** – Gwyneth Morgans (Glwydwern gynt), Pensarnau; **Gwinoedd** – Margaret Jones, Cae Glas, Cwrtnewydd; **Cyffraith** – Margaret Jones, Cae Glas, Cwrtnewydd; **Gwaith Llaw** – Ceinwen Evans, Rhydsais, Talgarreg; **Blodau** – Andrew Davies, Llandysul; **Cystadlaethau 18 oed neu iau** – Carys Evans, Rhydsais, Talgarreg; **Cystadlaethau 26 oed neu iau** – Menna Williams, Gwynfryn, Alltyblacca; **Adran Plant Ysgol Gynradd: Blwyddyn 6 neu iau** – Meryl Evans, Rhydsais, Talgarreg; **Blwyddyn 2 neu iau** – Elis Jenkins, Ceulan, Maestir; **Ysgol â'r marciau uchaf yn yr adran arlunio, ac yn ennill tarian her Cyngor Cymuned Llanwenog** – Ysgol Llanwenog; **Cwpan Her Blaencathal, am focs o gynnyrch gardd** – Bessie Williams, Clyncoch, Cwrtnewydd; **Pencampwr y babell, ac yn ennill cwpan her Malcolm Fuller** – Margaret Jones, Cae Glas, Cwrtnewydd.

Hoffai pwyllgor y sioe ddiolch i bawb am eu cefnogaeth ac edrychwn ymlaen at groesawu pawb yn ôl i'r sioe y flwyddyn nesaf ar ddydd Sadwrn 19eg o Awst 2017.



EH
Gwallt gan Caryl
Yn Toriad Taclus Llanybydder:
Dydd Llun 9.00-7.00 a Dydd Mawrth 9.00-5.30
Teithiol:
Dydd Iau 9.00-2.30 a Dydd Gwener 9.00-5.00
Caryl Herrick
carylchw@hotmail.co.uk
Salon: **01570 481425**
Symudol: **07971629001**

Graham Jones
Gwasanethau Cyfrifiaduron
★ Datrys Problemau a Trwsio
★ Ymweliadau Cartref o £45
★ Cyfrifiaduron, Gliniaduron a Pherifferolion Ar Werth
★ Gwasanaeth Adfer Data
★ Gwasanaeth Dylunio Gwefan
Ffôn **01545 560776**
neu **07715 740777**
www.tynici.com
graham@tynici.com

Dawns Emporium
Rhoddion Cymraeg a Phersonol
07818 020907
Drefach, SA40 9SX
 dawnsemporium
www.dawnswelshgifts.co.uk

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr
Adeiladau'r Llywodraeth, Heol Pontfaen, Llambed
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk
yn cynnig pob gwasanaeth cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant
Eryl Jones Cyf
Beth am gysylltu â ni am amcan-bris i'ch holl anghenion yswiriant?
Car, lori, fan, beic modur
Yswiriant tŷ/cynnwys
Tai Bwyta / Siopau
Fferm a busnes
Cyfrifoldeb
Anifeiliaid
Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant, cynngor a chefnogaeth yn rhad
Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: **01570 422401**
E-bost: carol@ejic.co.uk
Mae Eryl Jones Ymgynghorydd Yswiriant yn awdurdodedig ac yn rheoleddig gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

Côr Corisma yn cyflwyno £1,000 i elusen LATCH



Aelodau Côr Corisma o Gwmann, Llanbedr Pont Steffan yn cyflwyno siec am £1,000 i elusen cancr plant sef LATCH. Codwyd yr arian wrth werthu cryno ddisg y côr sef 'Cico Sodle'. Yn derbyn y siec ar ran yr elusen oedd Dorette Stephens.

Côr Cwmann a'r Cylch

Roedd aelodau'r Côr ar ben eu digon nos Sadwrn y 6ed o Awst 2016 a bydd y dyddiad hwn yn aros ar gof pob un sydd, neu sydd wedi bod â chysylltiad â'r Côr oherwydd enillydd y brif gystadleuaeth i unawdwyr, y Rhuban Glas, yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru eleni oedd aelod o'r Côr, sef Kees Huysmans. Mae Kees yn enedigol o Steenbergen ac fe'i magwyd yn Sterksel yn yr Iseldiroedd. Daeth i Gymru dros ugain mlynedd yn ôl a setlo ym mhentref Tregroes ble bu yn cadw siop a chyn hir dechreuodd goginio a gwerthu bisgedi sy'n draddodiadol yn ei wlad enedigol ac erbyn hyn mae "Waffles Tregroes" yn boblogaidd drwy'r wlad.

Penderfynodd yn syth pan ddaeth i Dregroes ei fod yn mynd i ddysgu'r iaith Gymraeg. Pan ymunodd â Chôr Cwmann a'r Cylch gwnaeth yn glir i bob aelod ei fod am iddynt siarad ag ef yn Gymraeg yn unig. Erbyn hyn mae Kees yn hollol rugl yn yr iaith ac mae ei Gymraeg yn well na llawer ohonom ni.

Dechreuodd ganu fel unawdydd i'r Côr pan oedd SAGA yn trefnu gwyliau yng Ngholeg Llambled a'r Côr bryd hynny, yn diddanu'r ymwelwyr yn rheolaidd. Yn ôl pob hanes yr oedd ar y dechrau braidd yn nerfus ond roedd ei natur benderfynol a'i hiwmor hoffus yn ei gario trwy bob anhawster. Yr oedd ei berfformiad yn ennill y Rhuban Glas yn hunan feddiannolac yn broffesiynol ac yn ôl pob arbenigwr yn llawn haeddu'r wob. Mae ei orchestion yn sefydlu busnes lwyddiannus mewn gwlad estron iddo; dysgu'r iaith Gymraeg a nawr ennill y wob uchaf y gall ein gwlad gynnig i ganwr, yn glod mawr iddo. Nid yn unig mae aelodau'r

Côr yn ei longyfarch yn unfrydol ond maent hefyd yn diolch iddo am anrhydeddu ein haith a'n diwylliant mor urddasol.

Mae hen ddywediad bod tu ôl i bob dyn da mae gwraig dda ac mae'n sicr bod Kees yn ddyledus i Elonwy ei wraig, sydd hefyd yn gyfeilyddes y Côr, am ei chefnogaeth a'i chymorth bob amser. Ni chafwyd ymarfer nos Fercher (y10fed o Awst) fel arfer yn hytrach manteisiwyd ar y cyfle i longyfarch Kees. Trefnodd aelodau o bwyllgor y Côr fod yr aelodau wedi dod ynghyd yn eu dillad gorau i gael eu lluniau wedi eu tynnu gyda Kees. Darparwyd lluniaeth ysgafn i'r cwmni diolch yn arbennig i Mr a Mrs Elfan James a Mr a Mrs Keri Davies. Elfan hefyd drefnodd fod yna gacen hyfryd i'w rhannu rhyngom i gyd.

Diolch

Dymuna Lynwen Hollins (Lleinau gynt) a'r meibion ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbynasant oddi wrth ffrindiau yn yr ardal yn ystod eu tristwch o golli gŵr, tad a Grandad arbennig a balch i Zoe a Lachlan, Sydney, Awstralia.

Wedi Graddio

Llongyfarchiadau mawr i Beca Creamer, Brooklands ar raddio gyda 2:1 yn y Gymraeg o Brifysgol Caerdydd.

Pob lwc i ti wrth i ti fynd ymlaen i gwblhau dy Ymarfer Dysgu ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd!

Gwellhad Buan

Da deall fod Tommy Price, Gelliwrol adref ar ôl iddo treulio cyfnod yn yr ysbyty a gwellhad buan i unrhyw un arall sydd wedi bod ag anhwylder yn ystod y mis.

Arholiad Piano

Llongyfarchiadau mawr i Lowri Fflur Davies, Yr Encil, Cysgod-Y-Coed, Cwmann, am basio arholiad Gradd 2 piano.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â theulu Bro Dawel ar farwolaeth Gerwyn Davies hefyd a Lowri a Carwyn Gregson, Gwynfryn ar farwolaeth ei mamgu yn Ffostrasol.

Arholiadau

Llongyfarchiadau i'r unigolion a fu'n llwyddiannus yn eu harholiadau Safon Uwch, AS a TGAU. Pob lwc i chi gyd i'r dyfodol.

Eisteddfod Genedlaethol

Fel plwyfolion hoffem longyfarch Kees Huysmans, aelod o Gôr Cwmann ar ei lwyddiant yn ennill y Rhuban Glas ac i Gôr Llefaru Sarn Helen ar gipio y wob gyntaf yn y Fenni. Da iawn chi.

Sefydliad y Merched

Ar nos Lun cyntaf ym mis Gorffennaf aeth y mwyafrif ohonom ar daith fer i Ddyffryn Aeron i ymweld â Gwinllan Llaethliw. Croesawyd ni yn gynnes iawn gan un o gyd-berchnogion y winllan sef Mrs Sue Evans. Bu'n olrhain hanes y gwaith caled a chymleth a fu i gael y winllan yn barod i gynhyrchu grawnwin ar gyfer y gwin. Dim ers 2008 mae'r winllan yn bodoli ond mae eisoes wedi ennill amryw o wobrau am safon y gwin. Cawsom flasw gwinodd coch, gwyn a rholi a da iawn oeddent hefyd. Rhedir y winllan gan Sue, ei gŵr Richard, a'u mab Jac a bydd ei merch, Megan, yn helpu'n achlysurol. Diolchwyd i Sue

am noson ddifyr gan Morfudd.

Aed yn ôl wedyn i Ystrad Aeron, ac i Dafarn y Vale of Aeron, lle cawsom bryd blasus o fwyd cyn cynnal cyfarfod byr i wneud trefniadau ar gyfer rhai achlysuron oedd i gymeryd lle yn y dyfodol agos.

Cafwyd adroddiad byw iawn gan yr Ysgrifennydd, Gwyneth o'r diwrnod a dreuliodd fel ein cynrychiolydd yng Nghyfarfod Blyneddol Cenedlaethol y Mudiad yn Brighton. Cafodd lawer o fwynhad wrth fod yn un o'r miloedd oedd yn bresennol yno, a gwnaeth annog pawb ohonom i gymeryd mantais o unrhyw gyfle a ddaw i'n rhan i fynychu'r cyfarfodydd yma.

Gwnaeth y llywydd, Gwen, ddiolch i bawb am fod yno ac i Gwyneth am drefnu'r noson a dymunodd Wyliau Haf hapus i bawb.

Cynhelir cyfarfod cyntaf y tymor newydd yn y Ganolfan ar nos Lun, 5ed o Fedi am 7:30y.h, pryd y disgwylir Angharad a Meinir Davies o Bonterwyd i arddangos ei chreffftwaith. Croeso i aelodau hen a newydd.

Neuadd Sant Iago Mis Gorffennaf

1. Gwynfor Lewis, Bronnwydd, Llambled, 105. 2. Graham Evans, Fferm Felinfach, Cwmann, 113. 3. Eleri Davies, 13 Heol Hathren, Cwmann, 68. 4. Tony Lewis, Brynawel, Cwmann, 07. 5. Irfon Williams, Rhydeiddig, Cwmann, 116. 6. Emyr Jones, Teify Forge, Cwmann, 40. 7. Jenny Bracher, Glyndu, Cwmann, 99.

Mis Awst

1. T. James, Caeralaw, Cwmann, 115. 2. Sara Humphreys-Jones, Frongelli, Alltyblaca, 81. 3. Lena Williams, 39 Heol Hathren, Cwmann, 79. 4. Alun Jones, Glanrhyd, Parc-y-rhos, Cwmann, 80. 5. Canon Wynzie Richards, Maestefy, Cwmann, 143. 7. J. Brown, Ty-Helyg, Cwmann, 37. 8. C. Doughty, Carys, Cwmann, 15.

Ffair Ram

Ar Gae Pentref Cwmann

10fed Medi 2016

Llywydd: Enid Davies, Wrecsam.

Sioe, Arddangosfa Adar Ysglyfaethus, Bar, Bwyd, Hufen Iâ ac atyniadau eraill.



Arddangosfa Hen Beiriannau

Defaid a nwyddau i fewn rhwng 10 a 11.30 y bore. Beirniadu yn dechrau am 12 o'r gloch.

Ysgrifenyddion:

Danny Davies 423692, Wyn Jones 422511

Cwmann

Clwb 225 - Mis Gorffennaf

1. Emyr Jones, Hollies, Heol-y-Gogledd, Llambled, 147. 2. Alan Morgan, Rhydowen, Cwmann, 136. 3. Rhonwen Thomas, Pantygwin, Cellan, 139. 4. Glesni Thomas, 1 Heol Hathren, Cwmann, 23. 5. Nansi James, Emlyn Cottage, 114. 6. June James, Maesteg, Cwmann, 75. 7. Dr Herbert, Dolfor, Cwmann, 2. 8. Tegwen Morris, d/o Brynhathren, Cwmann, 9. Emyr Hargreaves, Heol Hathren, Cwmann, 98. 10. Gethin Jones, Croesor, Cwmann,

Clwb 225 - Mis Awst

1. Joan Davies, 23 Cwrt Deri, Cwmann, 17. 2. Kevin Doyle, Caradog Vue, Cwmann, 133. 3. Cerdin Price, Langwm, Heol-y-Bryn, Llambled, 41. 4. Timothy Evans, Efail Fach, Llanfair. 5. T. Harries, Castle View, Llanllwni, 175. 6. Margaret Jones, Glanhelen, Heol-y-Gogledd, Llambled, 210. 7. G. Griffiths, Bryn Hathren, Cwmann, 115. 8. E. Jones, Balfour House, Cwmann, 100. 9. Rhonwen Thomas, Pantygwin, Cellan, 139. 10. Gareth Jones, Trosnant, Cwmann, 177.

Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol

Hoffwn dynnu eich sylw at gwrs uwchraddedig newydd, Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol, a fydd yn cael ei ddysgu ym mis Medi 2016 am y tro cyntaf.

Mae'r cwrs Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol yn gwrs cyffrous sydd yn cael ei gefnogi gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac er mai cwrs cenedlaethol ydyw, Prifysgol Aberystwyth sy'n arwain y cynllun.

Cynllun uwchraddedig yw hwn, yn cael ei gynnig fel Tystysgrif (60 credyd), Diploma (120 credyd) neu MA llawn (180 credyd), ac mae croeso i fyfyrwyr astudio modiwlau unigol hefyd. Gellir astudio yn llawn amser neu'n rhan amser, a bydd tipyn go lew o'r dysgu yn digwydd o bell neu'n ddysgu ar-lein, ac yn addas i unigolion na fydd modd iddynt gyrraedd Aberystwyth yn aml. Mae'n gwrs addas iawn i bobl sydd eisiau dechrau ym myd cyfieithu neu bobl sydd eisoes yn gyfieithwyr mewn gweithleoedd ac eisiau datblygu'n broffesiynol.

Am ragor o fanylion, mae croeso i chi gysylltu â ni ar y cyfeiriad e-bost canlynol: astudiaethaucyfieithu@aber.ac.uk, ac mae modd gwneud cais ar-lein neu lawrlwytho'r ffurflenni oddi ar wefan Prifysgol Aberystwyth www.aber.ac.uk/cy/postgrad/howtoapply/apply-now/

Yn gywir,

Mandi Morse,

Darlithydd Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol

Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Sioned a Ffion Davies, Rhydybont, Llanybydder ar eu llwyddiant mewn arholiadau cerddorol yn ddiweddar. Cafodd Sioned Anrhydedd yn ei harholiad piano, gradd 5, ac Anrhydedd yn ei harholiad telyn, gradd 2. Llwyddodd Ffion i basio gradd 3 piano gyda theilyngdod. Diolch i mamgu, sef Eiry Jones, Maesyllan, Llambled am eu dysgu ar y piano ac i Meinir Heulyn am ddysgu'r delyn.

O dan nawdd y Coleg Cerdd Brenhinol, llwyddodd Lois Price, Langwm, Llanbed ei arholiad piano, Gradd 5 ac Elin Davies, Tyngrug-Isaf, Cwmsychpant, Gradd 7 piano gyda theilyngdod. Llongyfarchiadau mawr i chi eich dwy.

Gor-wyres

Llongyfarchiadau i Eirlys Davies, Eurlun ar ddyfodiad gor-wyres fach arall, sef merch i'w hwyres Cerys ac Ed.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Ann a Neal Wilson a'r merched, Glanhed ar golli mam, mam yng nghyfraith a mamgu annwyl iawn ar ddechrau mis Awst. Derbyniwch ein cydymdeimlad dwysaf.

Ar wellhad

Gobeithio fod Elin Evans, Maesgwyn dipyn yn well ar ôl iddi dderbyn llawdriniaeth ym Mryste yn ystod mis Awst.

Priodas Aur

Dathlodd Dewi a Bet Davies, Glynteg eu Priodas Aur ganol mis Awst. Llongyfrachiadau mawr i chi a dymuniadau da am flynyddoedd eto.

Lleisiau'r Werin

Yn ystod y misoedd diwethaf, mae'r côr wedi bod yn brysur yn canu o fan i fan. Ym mis Mai, festri Aberduar a noson goffi Pwyllgor Buddiannau Henoed Llanybydder oedd lleoliad y canu a chafwyd eitemau hyfryd gan ddisgyblion ysgol gynradd Llanybydder hefyd. Ym mis Mehefin, bu'r côr a phlant yr ysgol unwaith eto yn diddanu mewn barbeciw yn y Llew Du gyda'r elw yn mynd at achos teilwng iawn sef Ymchwil Cancr. Ar ddechrau Gorffennaf, bu rhai o'r aelodau yn canu mewn Cymanfa Ganu yn eglwys Sant Pedr Llambled ac ar Orffennaf 17eg eglwys Sant Pedr Llanybydder oedd y gyrchfan ac wedyn bum yn canu wrth Gof Golofn y pentref ar ganmlwyddiant brwydr y Somme. Yna, ar Awst 4ydd, gan ddechrau o Llambled am 8.30 y bore, teithiom i Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Fynwy a'r Cyffiniau yn y Fenni gan ganu ar y llwyfan perfformio ar y maes am 1 o'r gloch a chael tipyn o hwyl ar y

Llanybydder



Clwb Hoci

Cynhaliwyd cinio diwedd tymor tîm hŷn Clwb Hoci Llanybydder ar nos Wener 09/07/16 yng Nghlwb Rygbi Llambled. Gweler yn y llun isod (o'r chwith i'r dde) Angharad Morgan - Capten newydd tymor 2016-17; Caryl Rees - Sgorwraig Uchaf; Elen Powell - Chwaraewraig y tîm ac is-gapten 2016-17; Lleucu Ifans - Chwaraewraig mwyaf addawol y tîm. Llongyfarchiadau mawr iddynt oll. Hefyd yn y llun Capten y tymor a fu - Carys Wilkins ac is-gapten - Claire Richards.

caneuon amrywiol. Diolch i Elonwy a Ceinwen am eu llafur a'u hamynedd ac i Glanville am ein cludo'n ddiogel. Bydd yr ymarfer yn ail ddechrau ar Fedi 1af ac edrychwn ymlaen at dymor arall o ganu a chymdeithasu.

Priodas Dda

Llongyfarchiadau i Carwyn Lloyd, Welwyn ar ei briodas â Alicja yng Ngwlad Pwyl yn ystod mis Awst. Dymuniadau gorau i chi i'r dyfodol.

Diolch

Dymuna Dewi a Bet, Glynteg ddiolch i bawb am y cyfarchion, cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur dathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar. Diolch.

Hefyd, dymuna Elin Evans, Maesgwyn ddiolch i bawb am y cyfarchion, cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd yn dilyn canlyniad yr arholiadau ac hefyd yn dilyn y driniaeth a gafodd yn Ysbyty Bryste. Diolch.

Gwasanaeth Coffa SOMME



Gwasanaeth Coffa Brwydr y Somme yn Llanybydder - yr orymdaith o'r Eglwys i Gof Golofn y pentref.



Cynghorau Cymuned



CYNGOR BRO LLANLLWNI

Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 11 Gorffennaf 2016. Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Croesawyd Dewi Thomas yn ôl yn dilyn llawdriniaeth ynghyd ag estyn dymuniadau gorau iddo am wellhad. Roedd tri cynrychiolydd o gwmni RES yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod i gyflwyno gwybodaeth am fwriad posibl i godi melinau gwynt ar dir Brynlllywelyn, Nantycaws ac Esgairgam. Roedd posiblwydd o godi 8 neu 9 o felinau gwynt ar y safleoedd, yn ogystal â 5 bocs storio batris ryw 40 troedfedd yr un o ran hyd. Holwyd cwestyniau ar y pynciau canlynol gan y cynghorwyr: 1. Gosod llinellau trydan dan ddaear yn hytrach nag ar draws gwlad ar bolion. 2. Uchder y melinau gwynt. 3. Dyfnder y seiliau ar gyfer y twrbinau. 4. Y Ffordd Fynediad dros dir comin i'r safle. 5. Pam mynd ati i herio dyfamiad Adroddiad yr Arolygwr. 6. Pam oedd canfyddiad a diffiniad RES o ffiniau'r tir a adwaenir fel Mynydd Llanllwni mor wahanol i ganfyddiad y gymuned leol. 7. Sefydlu Cronfa Gymunedol.

Niwlog a chwbl anoddhaol oedd atebion cynrychiolwyr y cwmni i bob un o'r cwestyniau uchod yn y cyfarfod. Heb fanylion pendant i'w hystyried amheuwyd a ellid ystyried y cyfarfod yn ymgynghoriad go iawn. Mae'n sicr nad oedd modd datgan barn gytbwys am briodoldeb neu ddiffyg priodoldeb unrhyw gynllun ar sail y cyflwyniad a wnaed gan gynrychiolwyr y cwmni ar y noson. Ond roedd y cynghorwyr yn awyddus iawn i gael atebion gan y cwmni i'r cwestiynau oedd wedi codi ac i bori dros unrhyw gynlluniau a fyddai'n cael eu rhoi gerbron gan RES yn eu ffurf derfynol. Addawodd y tri cynrychiolydd o RES i ddarparu atebion a chynlluniau cyflawn erbyn cyfarfod mis Medi. Ymadawodd cynrychiolwyr RES ac aeth y cyfarfod o'r cyngor yn ei flaen.

Y Cae Chwarae - Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Tom Jones ac Eric Davies. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae. Roedd y gwaith o lanhau'r matiau diogelwch ar y cae wedi'i gwblhau.

Toiledau - Roedd y toiledau wedi cyrraedd y Cae Chwarae er 02 Mehefin 2016.

Gwefan Llanllwni - Roedd adroddiad o gyfarfod mis Mai ar y wefan. **Hyfforddiant i Gynghorwyr Tref a Chymuned** - Roedd dau gynghorydd wedi mynychu sesiwn hyfforddi ar 16 Mehefin 2016, a'r ddau ohonynt yn fodlon bod arfer dda Cyngor Bro Llanllwni yn gymeradwy.

Parcio Gwrthgymdeithasol ger Celtic Classic - Ceir yn parcio ar y palmant. Roedd y clerc wedi cysylltu â Swyddog Diogelwch y Cyngor Sir ynglŷn ag anhawster gweledol a oedd yn cael ei achosi i fodurwyr wrth iddynt droi i'r ffordd fawr o hewl Pantllyn a Parklane, ac yn awgrymu gosod llinellau melyn. Roedd y clerc wedi danfon lluniau o geir yn parcio ar y palmant ac wedi derbyn ymateb bod y mater yn cael ei drafod gan John McEvoy. Byddai Linda Evans yn cysylltu â'r Cyngor Sir eto am ragor o wybodaeth. Penderfynwyd bod y clerc yn cysylltu â Chomisynydd yr Heddlu i holi pam oedd yr heddlu mor gyndyn i weithredu er bod y cynghorwyr wedi trafod y mater droeon gyda'r heddlu lleol. Byddai croeso i'r Comisiynydd ddod i gyfarfod o'r Cyngor Bro i drafod y mater ymhellach. **Sbwriel yn y Pentref** - Roedd llawer o sbwriel o amgylch y pentref ger Erwlun, Maespwll-Aberceiliog, Waunfawr-Bryn.

CYNGOR CYMUNED LLANYBYDDER

Cyfarfod Mehefin - Y Parc - Mae'r ffens wedi'i adnewyddu wedi iddo gael ei ddifrodi gan fandaliad. Mae amryw welliannau ar y gweill ar gyfer y parc a phawb yn edrych ymlaen i weld y lle ar ei newydd wedd.

Y Gofgolofn - Diolch yn fawr iawn i Dave Doughty am ei waith diflino wrth baratoi coffadwriaeth i gofio am "Frwydr y Somme". Bu gwasanaeth yn yr Eglwys ac wrth y Gofgolofn, a wedyn bwyd yn y clwb Rygbi. Diolch i bawb a fu'n helpu. Mae'r pentref yn dal i aros am ramps ac arwyddion 20 milltir yr awr i stopio'r gyrrwyr cyflym syn mynd heibio i'r ysgol. Mae'r Clerc wedi ysgrifennu eto at Gyngor Sir Gaerfyrddin. Rydyn ni wedi bod ar y rhestr dros ddwy flynedd. Rhoddwyd £250.00 i'r "Clwb Pêl-droed" at gystadlaethau bêl droed. Diolch i Pam Burke a'i chynorthwyr am drefnu parti i ddathlu penblwydd y Frenhines Elizabeth yn 90 oed. Roedden nhw wedi meddwl am bopeth; rhywbeth pawb. Diwmod hyfryd a fwyhawyd gan bawb. Dosbarthwyd cwpanau â llun y Frenhines Elizabeth amynt i bob plentyn yn y pentref.

Cyfarfod Gorffennaf - Cafodd Mr Eirig Jones, Brynhyfryd, Llanybydder ei ddewis yn Gyngorwr gan ein Cyngor. Roedd 3 arall wedi gwneud cais hefyd. Byddwn yn edrych ymlaen i groesawu Eirig Jones mis nesaf yn ein cyfarfod. Rydyn yn dal gael problemau ynglŷn â'r We. Rwy'n siwr y bydd pethau yn iawn mewn wythnos pan fydd y cofnodion i'w gweld i gyd. Talwyd £22,728.00 i Jupiter Play am ailwneud y parc. Mae pawb yn dweud ei fod yn edrych yn grand. Bydd dydd agored yn cael ei gynnal cyn hir. Mae'r Cyngor yn dal i ofyn am rampau cyflymdra ac arwyddion 20mya y tu allan i'r ysgol. Mae gyrrwyr yn mynd yn llawer rhy gyflym a hyn yn ofnadwy o beryglus. **Brwydr Y SOMME** - Hoffai pentrefi Llanybydder a Rhydcymerau ddiolch o galon i Dave Doughty ac Andrew Wilson a'u cynorthwyr am wneud yr holl drefniadau ar gyfer diwmod mor bwysig i gofio am y milwyr a gollodd eu bywydau dros gyfnod diflas iawn. Bu siarad am y gwaith caled yma am ddiwmodau. Mae'r Cyngor wedi gofyn am gyngor gan yr awdurdodau i arafu gyrrwyr cyflym yn Rhif 1 - 19 Bro Einon. Rhoddwyd £250.00 i Henoed Llanybydder, drwy law Linda Jones. Diolch iddi am ei gwaith gyda'r hen bobl.

Gohebiaeth

Cynhadledd Flynyddol Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru

Dydd Sadwrn, 1 Hydref 2016, 10am - 4pm

Coleg Cambria Llysfas, Rhuthun

Rhaglen lawn a ffurflen gofrestru ar gael ar ein tudalen facebook neu trwy gysylltu ag enwaulleoedd@gmail.com

Dyddiad cau cofrestru: 19 Medi 2016

Cyngerdd mawr yn Aberystwyth

Tocynnau mawr ar werth ar gyfer y Gyngerdd sydd yn cael ei gynnal yng Nghapel Bethel, Aberystwyth ar nos Sadwrn 17 Medi yng nghwmni Rhys Meirion, Aled Wyn Davies, Shân Cothi a Bois y Gilfach, gyda Glan Davies yn arwain. Cofiwch fod modd eu prynu o Siop Elusen HAHAV ym Mhier Street neu cysylltwch gyda Megan ar 01970 612768. Pris y tocynnau yn £10 yr un, gyda holl elw'r noson yn mynd tuag at yr Hosbis.

Annwyl Gyfeillion

Eleni bydd Diwrnod Shwmae Sumae yn digwydd am y bedwaredd tro ar Hydref 15ed. Cofiwch achub ar y cyfle i ddathlu'r iaith Gymraeg, yn eich ysgol, coleg, gweithle, ysbyty, caffi, bar neu siop leol.

Dechreuodd Diwrnod Shwmae Sumae 4 blynedd yn ôl gyda dros 100 o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal ac wedi eu hysbrydoli gan ymgyrchoedd tebyg i hybu ieithoedd brodorol Gwlad y Basg a Llydaw.

Heddiw mae'r achlysur wedi ei gofleidio gan pobl ymhob rhan o Gymru, yn ddysgwyr, y di-Gymraeg a siaradwyr Cymraeg. Erbyn hyn mae cannoedd o ddigwyddiadau ac achlysuron yn cael eu cynnal o Fôn i Fynwy ar Hydref 15ed neu yn ystod yr wythnos honno. Mae nifer o sefydliadau ac ysgolion yn cynnal digwyddiadau o gwmpas y Diwrnod er mwyn hyrwyddo yr iaith, annog eraill i'w defnyddio ac fel ffordd o bontio rhwng cymunedau Cymraeg a di-Gymraeg.

Mae mudiadau sy'n aelodau o Dathlu'r Gymraeg yn annog pawb i gymryd rhan yn y dathliadau eleni, ac os ydych chi angen cyngor ar beth i'w wneud cysylltwch gyda nhw.

Cewch fanylion a syniadau ar www.shwmae.org

Dilynwch ni ar Twitter @shwmaesumae ac ar Facebook: Diwrnod Shwmae Sumae 2016

Pencarreg



Llwyddiant cerddorol

Llongyfarchiadau mawr i Cerys Angharad wrth iddi lwyddo pasio ei arholiad ABRSM telyn gradd 1 gydag anrhydedd!

Hefyd yn yr Eisteddfodau canlynol:

Gwyl Fawr Aberteifi

Unawd bl 3 a 4 - ail

Llefaru bl 3 a 4 - ail

Canu Emyr dan 12 oed - ail

Cerdd Dant dan 12 oed - ail

Eisteddfod Castell Newydd

Emlyn

Llefaru 8-10 oed - 1af

Unawd 8-10 oed - 2il

Unawd Offerynnol dan 16 oed - 3ydd

Unawd Cerdd Dant dan 21 - ail

Ysgrifennu

Llongyfarchiadau mawr i Heiddwen Tomos, Dôl-Mebyd, Pencarreg ar ennill y wobr gyntaf am ysgrifennu dwy fonolog yn Eisteddfod Genedlaethol. Da iawn ti Heiddwen a dal ati.

Dawnsio

Llongyfarchiadau mawr i Swyn Efa, Dôl Mebyd am basio gradd un yn ei harholiadau dawnio Tap a Modern gyda merit.

Priodas Arian

Llongyfarchiadau mawr i Julie a Dai o Bencarreg ar ddathlu ei Priodas Arian ar ddiwrnod olaf o Awst. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r dathlu!

Sefydliad Prydeinig y Galon

Cangen Llanybydder a Llambod

Noson Bingo

Yng Nghlwb Rygbi Llanybydder ar y 25ain o Hydref, 2016 am 8 o'r gloch.

Ysgol Bro Pedr

Ysgol Bro Pedr
A fo ben bid bont



Ryan Jones yn ymweld â Ysgol Bro Pedr a disgyblion yn cael cyfle i ofyn cwestiynau iddo am ei yrfa.



Mary Jones Prif-gogyddes Ysgol Bro Pedr campws cynradd yn derbyn rhodd gan y Pennaeth Mrs Jane Wyn am ei chyfraniad gwerthfawr i'r ysgol am bedair mlynedd ar hugain.



Bechgyn blynedd 3 a 4 Ysgol Bro Pedr yn ennill twrnament pêl-droed a drefnwyd gan Ysgol Carreg Hirfaen ar gyfer y cylch.



Merched Ysgol Bro Pedr yn ennill twrnament pêl-droed a drefnwyd gan Ysgol Carreg Hirfaen ar gyfer y cylch.

Ysgol Bro Pedr Campws Cynradd

Dymunwn yn dda i ddisgyblion blwyddyn 6 a fydd yn cychwyn yn y campws hŷn yn mis Medi a diolchwn iddynt am eu cyfraniad i'r ysgol dros y blyneddau. Cawsom wasanaeth hyfryd ganddynt cyn iddynt ymadael a chafwyd disgo a danteithion hefyd.

Bu timau pêl-droed yr ysgol yn llwyddiannus mewn twrnament a drefnwyd gan Ysgol Carreg Hirfaen yn ddiweddar gyda timau bechgyn blwyddyn 3 a 4 a thim merched yr ysgol yn ennill y twrnament a thimau blyneddau 5 a 6 yn gwneud yn arbennig o dda hefyd. Diolch i'r athrawon a fu'n trefnu ac yn hyfforddi. Bu disgyblion blyneddau 1, 2 a 3 allan yn croesawu Tywysog Cymru a oedd yn ymweld â'r Brifysgol.

Derbyniodd Harvey a Lisa dystysgrifau am eu gwaith fel Llysgenhaddon Chwaraeon yr ysgol mewn seremoni hyfryd yn ddiweddar – diolch iddynt.

Bu holl ddisgyblion yr ysgol ar amryw deithiau yn ystod y tymor – Yr uned dan 5 i Fferm Folly, blyneddau 1 a 2 i Ar y bel ac i wyllo sioe Sali Mali yn Theatr Felinfach a'r Adran Iau i Techniquet – diolch i'r staff a fu'n trefnu ac yn gofalu.

Roedd tipyn o gyffro yn neuadd y campws cynradd pan ddaeth un o enwogion rygbi Cymru i ymweld â ni sef Ryan Jones. Cafwyd cyflwyniad diddorol iawn ganddo a chafodd y disgyblion gyfle i ofyn cwestiynau iddo hefyd am ei yrfa. Diolch i Jac Rees am drefnu. Bu disgyblion hŷn yr ysgol yn cymeryd rhan yn Ras yr Iaith a Ffion Davies a fu'n cario'r baton ar ran y campws cynradd.

Trist iawn oedd ffarwelio ar ddiwedd y tymor â Mary Jones Prif gogyddes y campws cynradd wedi 24 mlynedd o wasanaeth clodwiw i'r ysgol a dymunwn ymddeoliad hapus iawn iddi. Diolchwn hefyd i Miss Nicola Davies a Mrs Meinir Evans am eu cyfraniad gwerthfawr hwythau yn ystod y flwyddyn. Cofiwch eich tair gadw mewn cysylltiad – byddwn yn gweld eich heisiau'n fawr.

Bro Pedr - Campws Hŷn

Mae Sara Elan Jones, disgybl tair ar ddeg mlwydd oed yn Ysgol Bro Pedr, wedi ennill cystadleuaeth i ddod o hyd i syniad gwreiddiol ar gyfer logo NAWR, Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg: Canolbarth a Gorllewin Cymru.



Dewiswyd dyluniad Sara Elan gan banel o Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a oedd yn cynnwys y Swyddog Prosiect Gweithredol, Gweinyddwyr ac Uwch Ddarlithwyr yn y Celfyddydau Gweledol.

Ieuan Jones
Adferwr Lluniau
Cwrtycadno



Gwasanaeth
troi
Vhs i Dvd

Rhoi bywyd newydd i hen lun

Ffôn: 01558 650153

e-bost: ieuan@glynhebog.co.uk

Y we: cwrtphotorestoring.com



Osian Potter
Toio a Gwaith Saer

Adeiladau Newydd · Ail-doi
Ffasgiau, Soffitau a Chafnau
Gwaith Simnai · Gwaith Plwm
Saer Coed

07816 869 047 · 01570 471 749
osianp@btinternet.com

Cymwys, 14 Blynedd o Brofiad, Geirda ar Gael

ANDREW JAMES

PLYMWR PROFIADOL



Gwasanaethu boeler olew
Gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi a cheginau
Ffôn: 07811052757
E-bost: dandrewj@icloud.com

**Gwersi TELYN a
Gwersi PIANO preifat**



Am wybodaeth bellach
cysylltwch â
Georgina Cornock-Evans
07967 648336

Gwasanaethu, Cynnal a Chadw
- Boileri a Ffyrnau Olew
- Pympiâu Gwres o Ffynonhellau'r
ddaeir a'r awyr
- Paneli Thermal Solar
- Silindrau heb awyrellau



01559 370997 / 07966 592183
aled.evans1@btinternet.com

Llwyddiant ysgubol yn Sioeau'r Haf



Enillwyr Sioe Cwmsychpant gyda'r Llywydd Mark Evans. Gweler rhestr llawn o'r enwau ar dudalen 18.



Plant Ysgol Carreg Hirfaen cyn cychwyn y Ras yr Iaith a aeth drwy Llambed nôl ar ddechrau'r Haf.



Gwobr arbennig yn yr Adran Goginio yn mynd i Grace Southall, Cwrtnewydd gyda'i chacen ar gyfer dathliad arbennig yn Sioe Cwmsychpant.



Pencampwr Adran y Ceffylau Sioe Cwmsychpant yn mynd i Sioned Davies, Cwmsychpant.



Cwpan am y marciau uchaf yn Adran y Gwinoedd a'r Cyffeithiau yn Sioe Llambed yn mynd i Margaret Jones, Cwrtnewydd.



Eirwyn Richards, Ffarmers yn cipio gwobr y Pencampwr gyda'i ddafad ac ni enillodd hefyd ddsbarth y Brid Penfrith Beulah yn Sioe Llambed.



Sian Jenkins, Llambed yn ennill y Silver Salver a'r Cwpan am y pwyntiau uchaf yn y gystadleuaeth Goginio agored a Megan, ei merch yn ennill y Cwpan yn Adran y CFfl yn Sioe Llambed.



Enillwyr Sioe Gorsgoch a C.Ff.I. Llanwenog gyda'r Llywyddion yn eu mysg, Daff a Gill Davies, Bwthyn, Brynteg. Gweler rhestr llawn o'r enwau ar dudalen 10.



Pencampwr y Pencampwyr yn adran y defaid yn Sioe Gorsgoch a C.Ff.I. Llanwenog, ac yn ennill cwpan her Wyn Morgans, Glwydwrn oedd Huw a Bronwen Evans, Glantren Fach, Llanybydder. Sioned ei merch sydd yn y llun.

Eisteddfod Genedlaethol Sir Y Fenni



Alwena Mair Owen, Cwmderi, Llanllwni a ddaeth yn ail yn yr Unawd dan 12 oed.



Sarn Helen enillodd y gystadleuaeth Côr Llefaru yn Eisteddfod Genedlaethol Y Fenni 2016. Hyfforddwyd y côr Llefaru gan Elin Williams, Y Garn. Da iawn chi ferched.



Llongyfarchiadau mawr i Heiddwen Tomos, Dôl-Mebyd, Pencarreg ar ennill y wobwr gyntaf am ysgrifennu dwy fonolog. Da iawn ti Heiddwen a dal ati.

Cweithgareddau'r Haf



Llongyfarchiadau mawr i Tomos Jones o Gwmann ac Iwan Evans (Capten) o Gorsgoch, wrth iddynt gynrychioli Tim Rygbi Cyffwrdd Cymru i Fechgyn o dan 18 oed allan yn Yr Iseldiroedd yn ystod 18-22 Awst 2016.

Gorffennodd bechgyn dan 18, yn 4ydd mewn cynghrair anodd dros ben. Cafodd y ddau brofiad bythgofiadwy a dymunwn bob llwyddiant iddynt ar gyfer y dyfodol.



Yn Adran y Dofendod y Sioe Frenhinol enillodd Paul Williams, Cwrtnewydd y Pencampwr yn yr Adran bridiau ysgafn gyda'i iâr Black Minorca.



David Davies, Gwarffynnon, Silian yn cipio'r Pencampwr yn Adran y Da Godro ac yna'r gilwobr yn Adran y Gwartheg yn Sioe Llambod.



Gareth Evans, Gorsgoch gyda'i ddafad a enillodd y gilwobr yn nosbarth y Defaid Llanwenog yn y Sioe Frenhinol.



Jac Davies, Llanybydder yn ennill y gystadleuaeth 'Best Young Handler' o dan 12 oed yn Adran y Defaid Sioe Cwmsychpant gyda 'Tyson' hwrdd, Polled Dorset.



Sialens Ten y fan



Ar benwythnos 16eg a 17eg o Orffennaf, fe wnaeth 4 aelod o'r clwb, Aneurin James, Kate McDermott, Fiona Davies a Helen Davies gymeryd rhan mewn sialens gwahanol i'r arfer sef cerdded i gopa Pen y Fan 10 gwaith, sy'n gyfystyr â deugain milltir. Roedd y sialens yn cychwyn am 6 o'r gloch ar y Nos Sadwrn, ac roedd ganddynt 24awr i'w chwblhau. Roedd Aneurin James fel dyn ar dân ac wedi gorffen y sialens erbyn y bore Sul, a'r merched hefyd yn gorffen yn gryf o fewn y 24awr. Roedd y sialens hon yn un heriol iawn nid yn unig yn gorfforol ond yn emosiynol ac roedd y tywydd yn wlyb, yn oer ac yn niwlog ond fe wnaeth y pedwar ohonynt yn anhygoel gan gasglu dros £3000 rhyngddynt i elusen LATCH. Llongyfarchiadau mawr iawn iddynt!



Tenovus

Ar brynhawn y 24ain o Orffennaf, daeth tyrfa dda i gefnogi ras 5k yn Llambod er mwyn codi arian i elusen Tenovus. Aeth y 3 safle cyntaf i redwyr Sarn Helen gyda Llewelyn Lloyd yn dychwelyd o anaf i gipio'r wobwr gyntaf mewn 18.07, Simon Hall yn 2il mewn 18.11 a Carwyn Daies yn 3ydd mewn 18.34. Helen Willoughby oedd yn gyntaf yn ras y merched mewn 21.04, Dee Jolly yn 2il mewn 21.28 ac Eleri Rivers yn 3ydd mewn 22.26. Aelodau eraill y clwb i redeg oedd Richard Marks 19.05, Kevin Pett 19.49, Tony Hall 20.38, David Thomas 20.44, Huw Rowcliff 21.14, Haydn Lloyd 23.28, Jenny Caulkett 24.01, Bronwyn Coltman 24.53, Gareth Jones 27.17, Emma Davies 30.30, Jane Holmes 30.53, Emma Gray 32.12. Llongyfarchiadau i Helen Willoughby a oedd yn rhan blaenllaw o'r trefniadau ac fe lwyddwyd i godi dros £700.

Paratoadau Ironman mewn llaw gyda'r ddeuawd Hughes a Thomas



Nid ar chwarae bach mae paratoi tuag at gystadlueth yr Ironman, ac mae Kevin Hughes a David Thomas wedi bod yn ymarfer yn galed ers blwyddyn bellach gan aberthu lot fawr o'u hamser er mwyn ceisio gwella'u ffitrwydd

a'u sgil yn y 3 maes. Ar ddechrau Mis Gorffennaf, fe wnaeth y ddau gystadlu yn y "Long Course Weekend" yn Ninbych y Pysgod, a oedd yn cynnwys nofio 2.4 milltir ar y Nos Wener, beicio 112 milltir ar y dydd Sadwrn a rhedeg marathon ar y dydd Sul. Llwyddodd Hughes i orffen mewn 12 awr 23 munud a Thomas mewn 12 awr 43 munud. Yna ar y 23ain o Orffennaf, teithiodd y ddau i ogledd Sir Benfro i gymeryd rhan yn nhriathlon "Ocean Lava Wales" yn Abergwaun sy'n gyfystyr â hanner ironman gyda Hughes yn gorffen mewn 5.27 a Thomas yn gorffen mewn 5.35. Dymuniadau gorau i'r ddau yn yr Ironman ar Fedi 18fed a gallwch ddarllen yr hanes yn rhifyn nesaf Clonc.

Ras Yr Wyddfa

Mae Ras Yr Wyddfa yn denu aelodau Sarn Helen yn flynyddol ac nid oedd eleni yn eithriad, wrth i dri aelod o'r clwb deithio i Lanberis. Llwyddodd Ken Caulkett i gael ras arbennig o dda ar fynydd uchaf Cymru wrth iddo orffen mewn 1 awr 20 munud a'i osododd yn 14eg yng nghategori y dynion agored ac fe wnaeth hefyd orffen y ras cyn aelod olaf tîm Cymru. Roedd Caryl Wyn Davies yn rhedeg y ras am y degfed tro a gorffen mewn dwy awr a Terry Wyn Jones yn gorffen mewn 1 awr 58 munud.

Canlyniadau eraill:

Yn ystod misoedd yr haf, mae nifer o rاسus bach lleol wedi cymeryd lle ac wedi cael eu cefnogi gan aelodau Sarn Helen. Ras 10k Rhydaman – Mitchell Readwin yn rhedeg 50.24. Llangadog 10k – Gareth Payne yn ennill y ras mewn 36.51, Carwyn Davies yn 2il mewn 39.04 a gwraig Carwyn, Emma yn rhedeg ei hamser gorau mewn 1.09.11. Ras Caio i Lanwrda – Simon Hall yn ennill y ras mewn 50.37, Daniel Hooper yn 2il mewn 51.01, Carwyn Davies 53.16, Nigel Davies 56.14, Calvin Williams 56.36, David Thomas 56.42, Richard Marks 56.51 a Tony Hall 57.38 a Dee Jolly yn ennill ras y merched mewn 58.08. Ras Myddfai 8 milltir – Gareth Payne yn 3ydd mewn 52.06, Simon Hall yn 4ydd mewn 54.21, Andrew Davis 58.25. Helen Willoughby yn 3ydd yn ras y merched mewn 65.52 a Eleri Rivers yn 4ydd mewn 68.29. Yn y ras 5 milltir gwelir Carwyn Davies yn gorffen yn y 3ydd safle mewn 34.55, Gareth Jones 50.38, Jane Holmes 58.10 ac Emma Davies 62.08. Ras 10k Aberteifi – Michael Davies 2il M40 42.13, Tony Hall 2il M50 43.48, Dee Jolly 2il menyw agored 44.48, Michael Taylor 45.55. Cynhelir cyfres Ras Poppit gan glwb Aberteifi yn flynyddol sy'n cynnwys yr un ras o 5k ar hyd tarmac, llwybr a thraeth dair gwaith yn ystod Gorffennaf ac Awst gyda gwobrau ar gyfer pob ras unigol yn ogystal â'r gyfres. Llwyddodd Helen Willoughby i ennill y gyfres yng nghategori y menywod 45 wrth iddi gael amserau o 22.51, 23.43, 23.28. Eleri Rivers yn cipio'r 2il wobwr yn y ras gyntaf yng nghategori'r menywod 35 mewn 24.04, gyda Delyth Crimes yn 3ydd i fenywod 45 mewn 26.18. Yn ei ras gyntaf nŵl wedi iddo dorri ei droed, llwyddodd Sion Price i orffen yn 5ed yn yr ail ras mewn amser arbennig o 18.54, ac yna'n well fyth yn y 3ydd ras wrth iddo gipio'r 2il safle mewn 18.20. Enillodd Glyn Price categori'r dynion 40 yn y 3ydd ras mewn 19.57. Aelodau eraill i gymeryd rhan yn ystod y gyfres oedd George Eadon, Emma Davies, Emma Gray, Jan Jones, Haydn Lloyd, Martin Darby ac Elin Neal. Ras arall ar y traeth oedd Borth 10k ac roedd yr amodau yn wyntog iawn ar Awst y 7fed a oedd yn mynd i brofi cryfder y rhedwyr. Gorffennodd Ken Caulkett yn 4ydd mewn 38.18, Sion Price 40.05, Glyn Price 3ydd dynion 40 mewn 41.31, Mike Davies 44.31, Helen Willoughby unwaith eto yn fuddugol yn y menywod 45 mewn 48.14 a Jenny Caulkett yn rhedeg 56.22. Ar yr un diwrnod yn Aberhonddu, roedd Richard Marks yn rhedeg ras 10 milltir ac fe lwyddodd yn arbennig wrth orffen yn 1af i ddynion dros 60 mewn amser o 1.07.10, 3 munud cyn yr ail yn ei categori. Teithiodd 4 o'r clwb i Aberteifi i redeg 10k Ras Y Maer. Michael Davies yn 2il dynion 40 mewn 42.13, Tony Hall 2il dynion 50 mewn 43.48, Dee Jolly yn ail ferch agored mewn 44.48 a Michael Taylor 45.55.

Canlyniadau'r Plant/Ieuencid

Mae plant a'r ieuencid hefyd wedi bod yn brysur iawn dros yr haf yn cystadlu mewn amrywiol rاسus. Yn ras Tenovus, Llambod rhedodd rhai o'n ieuencid y ras 5k, a llwyddodd Thomas Willoughby redeg ei amser gorau gan orffen yn 5ed ond yn 1af dan 18 mewn 19.15, yn ail dan 18 oedd Gwion Payne mewn 20.25 ac yn 3ydd dan 18 oedd Daniel Willoughby mewn 20.53. Gorffennodd Gwen Thomas yn 2il ferch dan 18 mewn 34.52. Ieuencid eraill a redodd y 5k oedd Jack Caulkett 21.43, Idris Lloyd 22.48, Jamie Jones 22.39, Owen Davies 25.31 a Sean Wood 26.21. Yn y ras 1.5k, gorffennodd Rhodri Gregson yn 2il mewn 9.07, Sara Thomas oedd y ferch gyntaf mewn 9.09 ac Alaw Jones, Cwrtnewydd yn 2il mewn 9.27. Ras hwyl Llangadog yn gweld Gwion Payne yn fuddugol yn y ras 2k mewn 7.37 ac Owen Davies yn gorffen yr un ras mewn 11.07. I lawr yr hewl yn Myddfai, roedd ras hwyl arall gyda Gwion Payne yn ennill y ras Uwchradd, Tomos Morgans yn



rhedeg y ras 5 milltir mewn 39.45, Rhys Williams yn ennill y ras cynradd, Sean Wood yn 4ydd a Nia Williams yn 2il yn ras y merched. Fe wnaeth y ras filltir ar draeth Borth ddenu tipyn o'n aelodau gyda Jack Caulkett yn ennill y categori oedran 11-12oed mewn 7.05, ac yn dilyn yn agos iawn mewn 7.06 oedd Rhys Williams a ddaeth yn 2il yn nghategori oedran 9-10oed. Llwyddodd chwaer Rhys, Nia Williams orffen yn 2il yng nghategori'r merched 7-8oed mewn 9.37. Hefyd yn rhedeg oedd y brawd a'r chwaer Sean a Charlie Wood a orffennodd mewn 8.46 a 10.14, a'r chwiorydd Caulkett, Isabella 10.05, Violet 10.10 a Maddie 10.46. Gwelwyd nifer o lwyddiannau ar draeth Poppit yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst. Thomas Willoughby yn ennill y ddwy ras gyntaf i ieuencid dan 18 yn y 5k a chipio'r gyfres, gyda'i frawd Daniel yn 3ydd dan 18 yn yr ail ras a Tomos Morgans yn 2il dan 18 yn y 3ydd ras. Rhys Williams oedd pencampwr y gyfres yn y ras filltir i fechgyn cynradd wrth orffen yn ail yn y ras gyntaf cyn ennill y ddwy ras olaf ac Alaw Jones yn ennill pob ras yn ei chategori hi ac hefyd yn bencampwraig y gyfres. Llongyfarchiadau hefyd i'r aelodau canlynol am roi perfformiadau da, rhai yn rhedeg am y tro cyntaf a nifer yn rhedeg eu hamseroedd gorau ar y cwrs, Hari Rivers, Sean Wood, Owen Davies, Charlie Wood, Jac a Mari Rees, Cai Allen, Rhodri Gregson, Beca Jones, Nia Williams, a Steffan Rivers.

Clwb beicio

Dorian Rees oedd unig aelod o'r clwb i gymeryd rhan yn Sportif Campau Caron ar Orffennaf 19eg gan gwblhau'r cwrs hir o 56 milltir o amgylch Pumsaint, Rhandirmwyn a Llanddewi Brefi cyn dychwelyd i Dregaron mewn 3 awr 19 munud. Ychydig dros wythnos yn gynt, fe gymerodd rhan mewn cystadleuaeth o'r enw "The Monster" sy'n cael ei hadnabod fel y sportif anoddaf ym Mhrydain, gyda'r cwrs 120 milltir yn gorchuddio 12,500 troedfedd o ddringo. Fe orffennodd y cwrs mewn 8 awr 40 munud gydag aelod arall o'r clwb Tim Strang ddim yn bell iawn tu ôl mewn 9 awr 5 munud.

Yn agosach i adref ar Awst 20fed, gwelwyd Dorian a'i fab Jac Rees ynghyd â sawl aelod arall o'r clwb yn cymeryd rhan mewn taith feics nodedig i godi arian i elusen JDRF (juvenile diabetes research foundation). Fe wnaeth Dorian a Jac, sydd ond yn 8 oed gymeryd rhan yn y daith ganolig o 25 milltir o amgylch Tregaron, ac fe wnaeth dwy aelod arall iau o'r clwb sef Gwenllian Llwyd Jones a Elin Davies gymeryd rhan yn y daith o 9 milltir o amgylch Llanfair a Cellan, gyda phob taith yn dechrau a gorffen yn y Clwb rygbi yn Llambled. Da iawn i chi gyd.



Cwmsychpant

Priodas Arian

Llongyfarchiadau i Dai a Wendy Davies, Caerwenog ar ddathlu eu Priodas Arian ar ddechrau mis Medi. Iechyd da eto am flynyddoedd lawer.

Ŵyr bach

Llongyfarchiadau i Lyn Griffiths, Penlanfawr ar ddod yn famgu ganol mis Awst. Mab bach, Tomos Llewelyn i Geraint ac Eirlys yn Llansawel.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i holl blant yr ardal sydd wedi gwneud yn dda mewn gwahanol arholiadau yn ystod yr Haf. Da iawn chi a phob lwc eto yn y Coleg pan ddaw hi'n amser ym mis Medi.

Cwmsychpant

Treialon Cŵn Defaid a Sioe Cwmsychpant 2016

Cynhaliwyd Treialon Cŵn Defaid a Sioe Flynyddol Cwmsychpant a'r Cylch ar gaeau Waun, Rhydowen ar ddydd Sadwrn, Awst y 13eg trwy garedigrwydd Mrs. Ella a Mr. Vernon Davies.

Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn unwaith yn rhagor ac eleni roedd yr elw yn mynd tuag at brynu peiriannau "Defibrillator" i Gwmsychpant a phentrefi cyfagos. Codwyd swm sylweddol a fydd yn cael ei ddefnyddio i brynu'r peiriannau hyn a blychau pwrpasol i'w dal yn hwyrach yn y flwyddyn.

Dechreuodd diwrnod y sioe yn gynnar gyda'r treialon a bu'r cŵn defaid yn rhedeg o'r bore bach tan yr hwyr. Unwaith eto eleni roedd y babell yn orlawn o gynnyrch amrywiol ac roedd y cyfan o safon uchel. Cynhaliwyd mabolgampau i'r plant hefyd yn y bore ac mi wnaeth nifer helaeth ennill rhubanau. Cafwyd arddangosfa o hen beiriannau hefyd a oedd yn werth i'w gweld.

Ein llywydd eleni oedd Mr. Mark Evans, Llwynrhos, Rhuddlan a braf iawn oedd cael ei gwmni ef a'i deulu yn ystod y sioe. Cafwyd araith bwrpasol ganddo lle soniodd am lwyddiant Sioe Cwmsychpant dros y blynyddoedd a chyfraniad y gymuned leol tuag at y llwyddiant hwnnw. Mawr hefyd yw ein diolch iddo am ei rodd haelionus i'r coffrau.

Ar ddiwedd y prynhawn cynhaliwyd ein gwerthiant blynyddol llwyddiannus gyda Sion Jenkins a Dewi Jones wrth y llyw. Unwaith yn rhagor gwerthwyd amrywiaeth helaeth o bethau a gyfrannwyd gan gefnogwyr y sioe a chodwyd arian sylweddol i'r elusen.

I gloi'r diwrnod penigamp, cafwyd adloniant yng nghwmni'r grŵp lleol a phoblogaidd sef Newshan. Unwaith eto eleni cynhaliwyd sesiwn ganu i'r plant yn gyntaf ac yna cystadleuaeth "Taclo'r Tasgau". Cystadleuaeth i dimau o bedwar aelod oedd "Taclo'r Tasgau" a gwelwyd chwech ar hugain o dimau yn rhoi tro ar dacro'r pedair tasg a roddwyd iddynt ar y noson. Cafwyd llawer o hwyl gyda'r babell dan ei sang yn gweiddi a chefnogi eu timoedd. Enillwyd y tasgau eleni oedd "Tim y Pwyllgor". Llongyfarchiadau mawr iddynt. Gorffennwyd y noson yng nghwmni Newshan a chafwyd canu da a dawnsio hyd oriau mân y bore.

Dyma restr o enillwyr y dydd:

Treialon Cŵn Defaid - Cenedlaethol Agored - Eirian Morgan a Glyn. **Nofis Cenedlaethol** - Allan Williams a Spot. **Agored De Cymru** - Glyn Howells a Fly. **Nofis De Cymru** - Lisa Hanson a Gwennan.

Gwinoedd - Megan Richards, Aberaeron. **Cyffeithiau** - Megan Jones, Cwmsychpant. **Coginio** - Carol Rees, Bwlchfyadfa. **Gwaith Llaw** - Doreen Sisto, Abergorlech. **Crefft** - Carwyn Davies, Penffordd. **Ffyn** - Keith Allen, Carew, Llanelli. **Ffotograffiaeth** - Eleri Jenkins, Llanbedr Pont Steffan. **Arlunio Plant - Bl. 2 ac o dan** - Sapphire Gibbons, Ysgol Cwrtnewydd. **Bl. 3 a 4** - Meredydd Davies, Ysgol Llanwnnen. **Bl. 5 a 6** - Luned Jones, Ysgol Cwrtnewydd. **Adran Plant - Dan 8** - Steffan Hedd Howells, Llanwenog; Anna Evans, Rhydowen; Jac Rees, Cwmsychpant ac Elin Lloyd, Drefach. **9 ac o dan 12** - Elen Morgan, Drefach. **12 ac o dan 17** - Glesni Thomas, Pontsian. **Adran Blodau** - Andrew Davies, Llandysul. **Celfyddyd Blodau** - Victor Edwards, Rhydowen. **Cynnyrch Gardd** - Aeron Davies, Cribyn. **Adran Geffylau - Pencampwr yr Adran Geffylau** - Sioned Davies, Cwmsychpant. **Pencampwr yr Adran Geffylau i Blant** - Cadi Evans, Talgarreg. **Adran Ddefaid - Pencampwr Croesfrid** - Anwen Jones, New Inn. **Taleb gwerth £25** - John Jones, Cwmsychpant.

Dymuna pwyllgor Treialon Cŵn Defaid a Sioe Cwmsychpant ddiolch yn fawr iawn i'r beirniaid, y stiwardiaid, y noddwyr a phawb arall am bob cyfraniad a chymorth a dderbyniwyd er mwyn sicrhau sioe lwyddiannus arall.

Llais

Braf oedd clywed llais Owen Griffiths, Penlanfawr yn cyflwyno o'r Prif Gylch yn y Sioe Frenhinol eleni.

Capel y Cwm Barbiciw

Nos Wener, Gorffennaf 22ain cynhaliwyd Barbiciw Capel y Cwm. Roedd y tywydd yn hynod garedig wrthym ac fe fwynhawyd y bywd blasus a'r cymdeithasu yn fawr iawn. Codwyd swm sylweddol o arian i goffrau'r Capel yn ystod y noson. Diolch i bawb am gefnogi.

Trysorydd newydd

Mewn Cwrdd yn ystod mis Gorffennaf fe nodwyd gan ein Gweinidog y Parch Wyn Thomas fod gan Gapel y Cwm drysorydd newydd. Linda Bashford sydd yn cymryd y swydd o hyn ymlaen. Diolchwyd yn ddiffuant iawn i Elenid Jones, Talarwen am wneud y swydd o drysorydd i Gapel y Cwm am gyfnod o dros 6 mlynedd a phob lwc i Linda gyda'r gwaith pwysig yma.

Llanbedr Pont Steffan



Mae Cymdeithas Cerddwyr Llanbed yn 30 oed, ac er mwyn dathlu'r achlysur, cafwyd taith o gwmpas y dref ar y 27ain o Orffennaf a dathliad yn Llain y Castell Llanbed. Rhai o aelodau gwreiddiol Cymdeithas Cerddwyr Llanbed - Philip, Penny, Iory a Sid yn torri cacen pen-blwydd y gymdeithas yn 30 oed.



Pen-blwydd Cymdeithas Cerddwyr Llanbed

Eleni mae'r gymdeithas yn dathlu pen-blwydd yn 30 oed a daeth tyrfa dda ynghyd i gerdded a nodi'r achlysur.

Cwrddwyd ar y Rookery a cherdded cyrion y dref. Bwriadwyd cerdded glannau'r Teifi, ond oherwydd y gwlybanaeth, bu'n rhaid newid y trefniadau.

Dechreuodd 26 ar eu taith i gyfeiriad Ffynnonbedr, yn hen griw ac yn griw newydd. Aethpwyd drwy fynwent Eglwys Sant Pedr ac o gwmpas Maesyderi, Bryn yr Eglwys a Phenbryn gan gerdded i lawr heibio'r Clwb Rygbi i Faesyfelin a Chwrt Dulais i dir Prifysgol y Drindod Dewi Sant, nôl trwy'r dref ac i gael cwpaned a lluniaeth yn Llain y Castell.

Cafwyd tywydd teg ar hyd y daith a chwmni da. Treuliwyd y prynhawn yn hel atgofion am y dyddiau a fu gan drafod y llwybrau cerdded lleol a'r teithiau niferus a gynhaliwyd yn bell ac agos dros y blynyddoedd.

Torrwyd cacen pen-blwydd hardd gan bedwar aelod gwreiddiol - Iory, Penny, Sid a Philip. Roedd y gacen wedi ei haddurno'n gelfydd gyda charreg filltir yn nodi'r blynyddoedd ar ei chop.

Diolchodd Philip Lodwick am y blynyddoedd hapus o gerdded a gafwyd yn enwedig y gwmniath, yr awyr iach a'r antur. Cyfuniad hyfryd y gallai argymhell i bawb.

Llwyddiant Côr Merched Canna

Llongyfarchiadau i Gôr Merched Canna, Caerdydd dan arweiniad Delyth Medi un o ferched Llambled ar eu llwyddiant mawr yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy a'r Cyffiniau eleni. Cipiodd y Merched y wobwr gyntaf yng nghystadleuaeth y Côr Alaw Werin gan dderbyn Tlws Parti'r Ffynnon a £500 a'r ail yn y Côr Merched gan dderbyn £300. Yn ogystal â hyn ar ddiwedd yr Ŵyl dyfarnwyd y Côr yn fuddugol am y perfformiad gorau allan o'r holl ymgeiswyr yn yr Adran Gorawl o ddarn gan gyfansoddwr o Gymro a chyflwynwyd i'r Merched Gwpan y Ffisilwyr Cymraeg ynghyd â £250.

Felly bu'n Eisteddfod i'w chofio i Delyth a'r Merched.

Estynnir dymuniadau gorau i Delyth ar ddathlu pen-blwydd arbennig iawn yn ystod y mis.

Ysgol Sul Noddfa

Cafodd Janet dipyn o syrpreis yng Nghaerdydd pan oedd hi'n siarad am waith yr Ysgol Sul yng Nghyfarfodydd Blynyddol Undeb Bedyddwyr Cymru yn ystod yr haf oherwydd daeth tri o Llambed sef Roy, Alun a Sharon lawr yr holl ffordd i'w chefnogi. Wrth ei chyflwyno soniodd y Parch Aled Davies am ei chyfraniad enfawr i Ysgol Sul Noddfa am gyfnod o

ddeng mlynedd ar hugain erbyn hyn.

Fel rhan o'i sgwrs bu Janet yn sôn am ffyddlondeb ac ymroddiad y plant bob nos Wener a'u parodrwydd bob amser i gymryd rhan mewn nifer o oedfaon yr ifanc yn ystod y flwyddyn gan wneud hynny gyda graen, hefyd i fod yn rhan flaenllaw o'r Gymanfa Ganu, diddori'r Henoed yng Nghartref Hafandeg bob tymor ynghyd â chyfrannu at y Banc Bwyd. Cyfeiriodd at y pleser a'r hwyl y mae'n cael yng nghwmni'r plant a'r bobl ifanc sydd yn gwneud y gwaith yn werth chweil. Soniodd hefyd am y criw brwdfrydig o rieni sydd o hyd yn barod i gynorthwyo mewn unrhyw ffordd. Yn ôl ymateb y gynulleidfa roedd pawb wedi mwynhau'r anerchiad yn fawr ac yn uchel iawn eu canmoliaeth.

Mae yna nifer o weithgareddau amrywiol wedi eu trefnu ar gyfer y mis hwn.

Ar brynhawn Sul 4 Medi am 3.30 cynhelir oedfa arbennig yn Ysgol Carreg Hirfaen yn ngofal ein Gweinidog y Parch Jill Tomos a phlant yr Ysgol Sul. Bydd picnic yn dilyn yn yr awyr agored os yw'r tywydd yn caniatáu a chyfle wedyn i'r oedolion gymdeithasu tra bod y plant yn cael hwyl wrth gyd chwarae. Croeso cynnes i blant ac oedolion o bob oed.

Bydd yr Ysgol Sul yn ail ddechrau nos Wener 9 Medi o 4 hyd 5 o'r gloch ac estynnir croeso cynnes i blant o 4 oed i fyny. Am fanylion pellach cysylltwch â Llinos ar 423921 neu Janet ar 422856.

Ar Sul 18 Medi bydd cwmni 'Mewn Cymeriad' yn cyflwyno stori Mari Jones a'r Beibl yn festri Shiloh am 2 o'r gloch. Mae'r sioe yn addas ar gyfer plant o 6 hyd 11 oed ac yn werth ei gweld.

Trefnir Oedfa Deulu ar Sul 25 Medi am 5 o'r gloch yn Noddfa yn ngofal y Parch Arfon Jones, cyfieithydd Beibl.net. Eto estynnir croeso cynnes i bawb.

Aelwyd yr Urdd

Mae'r amser wedi cyrraedd i ail ddechrau gweithgareddau'r tymor newydd yn dilyn gwyliau'r haf. Bu'r flwyddyn hyd yn hyn yn un i'w chofio i'r aelodau gan eu bod wedi cystadlu mewn 5 cystadleuaeth yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a chyrraedd y llwyfan ym mhob un gan ennill dau gyntaf, dau ail ac un trydydd.

Cynhelir cyfarfod agoriadol y tymor ar ddiwedd Medi - y dyddiad i'w gadarnhau yn fuan. Darperir rhaglen amrywiol wedi ei threfnu gan yr aelodau. Mae'r tâl aelodaeth yn £7 cyn 1 Rhagfyr ac yn £8.50 ar ôl hynny - bargaen. Estynnir croeso cynnes i aelodau hen a newydd i ymuno â ni.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd i gyd sydd wedi cael profedigaeth yn ystod y misoedd diwethaf.

Priodas Aur

Llongyfarchiadau i Goronwy a Beti Evans, Y Mans, Stryd Newydd ar ddathlu eu Priodas Aur yn ystod mis Gorffennaf. Iechyd da eto am flynyddoedd lawer.

Ar Wellhad

Gobeithio erbyn hyn fod Ceinwen Jenkins, Ceulan, Maestir yn well ar ôl iddi gwmpo ar y stryd yn Llambled ar ddiwedd mis Gorffennaf.

Diolch

Dymuna John a Morwen Morgan, 4 Maes-y-felin ddiolch o galon am yr holl gardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd ar eu pen-blwydd yn 80 oed yn ddiweddar. Diolch hefyd am y cardiau a'r galwadau ffôn i John tra bu yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Sioe Mari Jones



Bydd cyfle arbennig i blant ardal Llambled rhwng 6-11 oed i fwynhau gweld sioe fyw o hanes ryfeddol y ferch ifanc o Lanfihangel y Pennant yn sir Feirionnydd a gerddodd 26 milltir i'r Bala i brynu Beibl gan Thomas Charles ar ddydd Sul, Medi 18fed am 2.00y.p yn Eglwys Shiloh, Llanbed.

Mae'r sioe, dan wahoddiad Eglwys Shiloh Llanbed, yn rhan o Gŵyl Hanes Cymru i Blant 2016 - www.gwylhanes.cymru

Gofynnir i'r plant gyfrannu £1 a'r oedolion £2 at y gost o lwyfannu y Sioe a bydd Eglwys Shiloh yn gwneud fynny y gwahaniaeth.

Am fwy o fanylion, cysylltwch gyda Twynog Davies - rhif ffôn -01570 422880.

Llanbedr Pont Steffan



Beicio

Ar ddydd Sadwrn 20fed o Awst cynhaliwyd diwrnod o weithgareddau yng Nghlwb Rygbi Llambled i godi arian tuag at elusen JDRF sef yr elusen i wella clefyd y sigwr. Taith feicio oedd yr atyniad yn y prynhawn gyda thuag at 70 o bobl yn bwrw ati i fecio rhwng 10 a 40 milltir. Braf oedd gweld plant ifanc yn mentro rownd Llanfair a rhai mwy profiadol yn tacio'r daith o gwmpas Tregaron neu cors Caron. Bendith oedd bod y glaw wedi peidio am gyfnod a phawb wedi cyrraedd nôl heb gwlychu!

Gyda'r hwyr cawsom ein diddanu gan 'Bryan yr Organ' a hefyd rhostiwyd mochyn i wneud pryd blasus i bawb gan Tony a Mair o'r Clwb Rygbi. Rydym yn ddiolchgar iawn i gwmni 'Dunbia' am roi y mochyn tuag at yr achos ac hefyd i Eirian James, Mark Lane am ddarparu'r bara ar ein cyfer. Gwerthwyd llawer o raffls ac hyd yn hyn rydym ym meddwl bod y cyfanswm a godwyd oddeutu'r £2,000 gyda chyfraniadau yn dal i ddod i law. Mae clefyd y siwgwr neu 'diabetes math 1' yn effeithio ar blant a phobl ifanc. Cafwyd araith bwrpasol am y clefyd gan Miranda Burdett, y swyddog newydd o Gaerdydd, sydd yn gyfrifol am annog pobl yng Nghymru i godi arian i'r elusen. Mae JDRF yn buddsoddi mewn ymwchwil i wella'r driniaeth yn llwyr. Bydd hyn o fudd hefyd yn y pendraw i bobl hŷn sydd yn dioddef o math 2.

Diolch o galon i bawb a wnaeth helpu gyda threfniadau'r dydd ac am gymryd rhan yn y gweithgareddau ac hefyd i'r pobl a busnesau lleol a

Cymdeithas Hanes

Bydd tymor newydd y Gymdeithas Hanes yn cychwyn Nos Fawrth, Medi'r 20fed, am 7.30 y.h. yn Hen Neuadd y Brifysgol. Siaradwr gwadd y noson fydd Dr. Michael Freeman, cyn guraður Amgueddfa Ceredigion, a bydd yn rhoi hanes Y Wisg Gymreig.

Tâl aelodaeth am y tymor cyfan yw £10, neu mae croeso i unrhyw un droi mewn yn achlysurol am £2 y noson. Edrychwn ymlaen i groesawu cyn aelodau a ffrindiau newydd.

Amgueddfa Llambled

Mae'r Amgueddfa wedi denu ymwelwyr o bob man drwy gydol yr haf, ac fe fydd ar agor tan ddiwedd mis Hydref. Cynhaliwyd Helfa Drysor ar ddydd Sadwrn Ffair Fwyd Llambled: nifer yn ennill gwobrau ariannol, ond doedd neb yn mynd i ffrwrdd yn waglaw.

Rhoed hen geiniog neu darn chwecheiniog i'r anfuddugol, - nifer fawr ddim yn gwybod eu gwerth, llawer yn chwilio am ddarn â blwyddyn eu geni arnynt, - a phlant yn rhyfeddu o gael ceiniog oedd dros gant oed!! Dechrau da i gasglu hen bethau, a dysgu ychydig hanes yr un modd.

Yn ogystal, fel rhan o'n hymgyrch

eleni i godi arian tuag at gostau'r Amgueddfa, ceir cyfle i 'enwi'r Tedi', y buddugol yn ennill y Tedi wrth gwrs. Mae'r gystadleuaeth hon yn parhau tan ddiwedd mis Hydref, felly dewch i'n cefnogi drwy roi cais ar enwi'r Tedi am £1 y tro.

Yn ystod y tymor, mae rhai wedi bod yn gofyn am hen lyfrau ar hanes Llambled a'r ardal gyfagos. Os oes gan unrhyw un hen lyfrau o'r math, hen lyfrau tywys (guide books), gwaith beirdd lleol ayyb nad ydych eu hangen mwyach, a fydddech yn ystyried eu rhoi i'r Amgueddfa er mwyn eu gwerthu, a chodi ychydig eto i gynnal yr Amgueddfa. Os oes, dewch â nhw i'r Amgueddfa ar Ddydd Mawrth, Iau neu Sadwrn os gwelwch yn dda.

Noddfa

Oedfa Deulu Beibl Byw

Bydd yr Oedfa Deulu nesaf yn Noddfa ar 25 Medi am 5 o'r gloch, pan ddaw'r Parchg Arfon Jones atom. Byddwn yn dathlu cyfoeth Gair Duw ar ein cyfer, ac edrychwn ymlaen at groesawu aelodau eglwys i'r cylch a'r cyffiniau i ymuno gyda ni.

Bu Arfon yn brysur yn cyfieithu'r Beibl i iaith gyfoes, ac mae Beibl.net yn gampwaith - does neb yn gallu



Angharad Morgan Isaac, Garej Pontfaen yn cwrdd â Tywysog Cymru yn Llanddewi Bredi yn ddiweddar gyda'u chyd-aelodau o Glwb Ffermwyr Ifanc Llanddewi Bredi.



Swyddogion Clwb Rotary Llanbed - Kistah Ramaya a'r Parch Bill Fillery - yn cyflwyno Tystysgrif i'r Cyng Dorothy Williams i gydnabod ei gwasanaeth arbennig.




'Merched y Wawr Llanbedr Pont Steffan yn rhannu £800'

Swyddogion a rhai aelodau o Ferched y Wawr Llanbedr Pont Steffan a'r Cylch yn cyflwyno sic o £400.00 i swyddogion cangen Llanybydder a Llambled o Ymchwil y Cancr. Codwyd yr arian drwy Daith Gerdded Noddedig o amgylch Parcyrrhos gan rannu'r cyfanswm â'r Pwyllgor Lleol gweithgar yma. Hefyd yn rhan o'r rhodd mae hanner yr elw a dderbyniwyd gan Gwmni Drama Tyngwdd fel cydnabyddiaeth am drefnu iddynt berfformio ei cyflwyniad anhygoel o 'Pobol yr Ymylon' yn Festri Capel Shiloh yn gynharach yn y Gwanwyn'.

dweud nad y'n nhw'n deall iaith y Beibl bellach!

Dewch i Noddfa felly ar 25 Medi. Go brin y bydd neb ohonom ar goll mewn jargon diwinyddol yn yr oedfa syml, fywiog hon.



Llanbedr Pont Steffan



Ffair Fwyd Llambod

Roedd Ffair Fwyd Llambod, a gynhaliwyd ddydd Sadwrn 23ain o Orffennaf, yn llwyddiant mawr. Roedd y ffair eleni yn fwy nag erioed gyda dros 130 o stondinau a'r campws a'r dref yn llawn ymwelwyr.

Agorwyd y Ffair gan Faer y Dref, y Cyng. Dave Smith, ac Abs Love, canwr a chyn-aelod o Grŵp Five ac roedd amrywiaeth o adloniant gan gynnwys cerddoriaeth a dawnsio trwy'r dydd. Yn ôl yr arfer, roedd arddangosfeydd coginio gyda Deri Reed, y cogydd moesol; Alex Rees, Prif Gogydd Gwesty'r Glynhegog; a Daniel Powell o Gaffi Conti yn y dref.

Roedd amrywiaeth eang o fwydydd a diodydd – o gacennau i gaws, o gig i gwrw, ac o win i fara. Roedd hyd yn oed gŵyl gwrw mewn hen gerbyd hufen iâ! Roedd tipyn o gystadleuaeth am y stondin gorau ond yn y diwedd yr enillydd oedd Cusan, Banc y Capel, Caerfyrddin – cynhyrchwr lleol o wirol hufenog tebyg i Baileys.

Roedd Marchnad y Bobl wedi agor ar gyfer yr ŵyl unwaith eto eleni, ac yn ogystal â bwyd roedd stondinau crefft a gwybodaeth, gan gynnwys Cyngor Ceredigion ac NFU Cymru.

Aeth y Ffair ymlaen yn hwyrach nag arfer. Roedd cymaint o bobl yn dal ar y maes am 4 o'r gloch roedd y stondinwyr yn parhau i werthu! Roedd y tywydd braf wedi cadw pobl allan yn siopa yn hwyrach na'r arfer mae'n siŵr.

Nid yw'r Ffair yn digwydd heb lot o waith a chodi arian, ac mae nifer o fudiadau a chwmnïau lleol wedi helpu trwy roi nawdd ariannol neu gymorth ymarferol.

Mae'n wir bod y Ffair Fwyd yn rhoi ein tref ar y map, gyda phobl yn dod o bell i ymweld â Llambod ac i wario am y dydd. Dylem fod yn ddiolchgar fod criw o bobl yn fodlon dod at ei gilydd i drefnu digwyddiad gwych fel hwn flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Cneifio Llambod

Roedd Cneifio Llambod yn dathlu ugain mlynedd eleni. Mae'r gystadleuaeth wedi mynd o nerth i nerth, ac wedi datblygu'n rhyfeddol.

Cynhaliwyd y gystadleuaeth ar y 16eg o Orffennaf ar Fferm Capeli, Cribyn, drwy garedigrwydd y brodyr Williams.

Dechreuwyd ar y cystadlu am 8yb, gyda rhagbrofion y dosbarth Iau a'r dosbarth Canol, yna cafwyd blas ar rowndiau cyn-derfynol y ddau ddosbarth hyn. Wedyn cafwyd rhagborfion i'r Cneifio Gwellau, yna'r rhagbrofion ar gyfer y ddau ddosbarth olaf sef y dosbarth Uwch a'r dosbarth Agored, a rowndiau cyn-derfynol ar gyfer y ddau ddosbarth.

Roedd hi nawr yn amser ar gyfer y Prawf Rhyngwladol rhwng Cymru a Ffrainc, ffeinal y dosbarth Iau a Canol, cyn cael Prawf Rhyngwladol arall rhwng Cymru a Seland Newydd – dyma yw uchafbwynt y diwrnod i rai. Ac yna gorffen y diwrnod gyda'r ddau ffeinal mawr i'r dosbarth Uwch ac Agored – uchafbwynt y diwrnod i eraill.

Roedd dros £2,700 o wobrau ariannol ac amryw dlysau i'w hennill ar ôl yr holl cystadlu, dyma oedd y canlyniadau: Dosbarth Iau: 1af- Sam Powell; 2il- Aled Evans; 3ydd- Ieuan Morris; 4ydd- Llion Harries; 5ed- Gethin Thomas; 6ed- Maredudd Pyrs. Dosbarth Canol: 1af- Phil Grove; 2il- Josh Page; 3ydd- Steffan Jenkins; 4ydd- Johnny Rees; 5ed- Lorena Dumon; 6ed- Eleonore Resneau. Dosbarth Uwch: 1af- Lloyd Rees; 2il- Loic Joberthie; 3ydd- Nick Greaves; 4ydd- Elgan Jones; 5ed- Dylan Jones; 6ed- Ilan Rhys Jones. Dosbarth Agored: 1af- Johnny Kirkpatrick; 2il- Mathew Evans; 3ydd- Gwion Evans; 4ydd- Gareth Daniel; 5ed- Richard Jones; 6ed- Ian Jones. Cneifio Gwellau: 1af- Elfed Jackson; 2il- Rheinallt Hughes; 3ydd- Gareth Owen; 4ydd- George Mudge; 5ed- Andrew Wear; 6ed- Loic Jauberthie. Prawf Cymru a Ffrainc: 1af- Cymru; 2il- Ffrainc. Prawf Cymru a Seland Newydd: 1af- Cymru; 2il- Seland Newydd

Os ydych am fwy o wybodaeth am y gystadleuaeth neu am weld fwy o luniau edrychwch ar dudalen Facebook y Cneifio.



Brenhines carnifal Llambod oedd Sophie Jones. Ei morynion oedd Elan Fflur Jones a Lani-May Osgood a'r gweision bach oedd Coley Shaw a Taylor Cowler.

Carnifal Llambod

Cynhaliwyd Carnifal Llambod eleni ar y 30ain o Orffennaf. Diwrnod hyfryd dros ben a'r haul yn disgleirio. Roedd Abz Love o'r grŵp Five a'i bartner Vicky Fallon yn feirniaid da dros ben, yn rhyfeddu at fel oedd pawb wedi neud yr ymdrech i wneud gwisgoedd anhygoel.

Fe wnaeth y maer Dave Smith goroni brenhines y Carnifal sef Sophie Jones a oedd yn bert iawn, a'i gosgordd Elan Fflur Jones, Lani May Osgood, Coley Shaw a Taylor Cowles.

Dim ond 4 fflôt oedd eleni, ac felly cafodd y 4 gwobr. 1. Moon Landings – Teulu Thomas's Ffynnonbedr 2. Dr Who – Hafandeg 3. Cydradd. Monopoly Merched Rygbi Llambod/ Euro Cymru ar daith Bus Hafandeg.

Y gwobrau am y gwisg Ffansi oedd Merch o dan 2. 1. Alis Evans, 2. Ffion Haf Davies, 3. Alana Jones. Bachgen o dan 2. 1. Elis Hopkins, 2. Noah-Jac Hunter, 3. Cayio Evans. Merched 2-4 1. Cydradd Cadi Davies/Tia Gilbert, 2. Nia Mair Davies, 3. Cydradd Cerys Gateley/ Maisie Wright. Bechgyn 2-4 1. Osian Morgans, 2. Lucas Sion Jones, 3. Joey Ellis Hunter. Merched 5-7 1. Mari Edwards, 2. Lily Evans, 3. Cydradd Leah Gateley/ Catrin Medi Davies. Bechgyn 5-7 1. Sunny Gale, 2. Tyler Thomas Jones, 3. Finlay Wright. Merched 8-11 1. Tia Deacon Jones, 2. Catrin Daniels, 3. Cydradd Caitlin Gateley/Shannon Thomas Jones. Bechgyn 8-11 1. Cydradd Ronnie Evans/ Steffan Davies, 2. Michael McDonagh, 3. Llion Evans. Pâr 11 a thano. 1. Elis Hopkins a Osian Morgans, 2. Catrin a Nia Davies. 3. Cydradd Tia Deacon Jones a Maisie Wright/ Llyr a Lluan Jones. Merched 12-15 1. Carys Davies, 2. Jessica McDonagh. Bechgyn 12-15 1. Steffan Daniels Pâr 12-18 1. Steffan a Catrin Daniels, 2. Steffan a Carys Davies, 3. Mari Edwards a Jessica McDonagh. Agored dros 18 1. Ann Davies, 2. Annwen Coles, 3. Cydradd Yvonne Coles a Margaret Evans. Pâr dros 18 1. Dilys Megicks a Ann Davies, 2. Amy Sherwood a Kath Hornby, 3. Ben Gilbert a Shirin Thomas. Enillydd Cwpan Selwyn Walters – Tia Gilbert. [Gweler y llun].

Eleni oedd y flwyddyn olaf i ni glywed llais Selwyn Walters wrth y meic a rhoddodd pwyllgor y Carnifal anrheg iddo i ddiolch am y blynyddoedd o wasanaeth i'r carnifal.

Roedd llawer o gystadleuwyr yn y mabolgampau dan ofal Llinos Jones a'i helpwyr o ysgol gynradd Bro Pedr.

Eleni am y tro cyntaf roedd Taflu'r Welinton yn cael tarian yn rhoddedig gan Deulu Dai Phillips (Dai Dŵr) er cof amdano, am ei fod wedi bod yn gysylltiedig â'r carnifal ers blynyddoedd yn gyrru sawl gwahanol fflôt, a brwd iawn fu'r cystadlu am y darian efo'r dyn gorau yn erbyn y fenyw orau yn mynd am y darian. Lauren Wright oedd yn erbyn Carwyn Gregson ac enillydd y darian am eleni oedd Carwyn Gregson.

Roedd yn braf gweld cymaint o stondinau a phethau i ddiwyrru ar y cae. Hoffai'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd i wneud y diwrnod mor bleserus.





Mwy na brocer yswiriant.
Mwy na yswiriant fferm.



Gweithio'n lleol? Byw'n lleol?
Yswirio'n lleol.

Gwasanaethau Yswiriant FUW
21 Stryd Fawr, Llanbed
Ceredigion, SA48 7BG

Swyddfa: 01570 422556
Carys Davies: 07890 883346
Gwion James: 07980 608337

www.fuwinsurance.co.uk

Mae Gwasanaethau Yswiriant FUW Cyl yn cael ei awdurdodi a'i reoli gan y
"Financial Conduct Authority", Rhif Cofrestru 615251.



CELFY CEGIN A 'STAFELL
WELY, ATELOGION CEGIN
WEDI EU FFITIO,
TEILS WAL A LLAWR

DOLGADER,
SGWAR Y FARCHNAD,
LLANYBYDDER
01570 480257

COMPASS OFFICE SUPPLIES

Am eich holl
ddeunydd swyddfa



Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llambod, Heol Tregaron,
Llambod.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

Oh My Cod

Siop Pysgod a Sglodion

**19 Stryd Fawr,
Llanbed**

Oriau Agor:
Mawrth - Sadwrn 12yp - 9yh
Sul - Llun - Ar Gau

CANOLFAN ADDURNO
AA
A

Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerau, Polion a thraciau llenni,
gwasanaeth torri allwedd i a
pheiriannau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Drefach

Y Gymdeithas Hŷn

Ceir hanes dwy daith haf y
Gymdeithas y tro hwn: ym mis
Gorffennaf, teithiwyd i Gaerleon
i weld safle'r Rhufeiniaid yn y
drydedd ganrif O.C. Llawer o
greiriau i'w gweld yn yr Amgueddfa,
ac yna'r baddonau mewn adeilad
arall gerllaw. Mae'n anodd
dychmygu heddiw'r crandrydd
oedd yno ganrifoedd yn ôl.
Wedi gadael Caerleon, taith fer i
Gasnewydd i weld y Bont Lwyfan
sy'n cludo ceir a theithwyr ar draws
yr Afon Wysg. Adeiladwyd y bont
hon y ffurf yma er mwyn caniatáu i
longau masnach ddod i fyny'r afon.
Profiad gwahanol iawn oedd cael ein
cludo ar draws yr afon fel hyn! Nôl
i Langennech am bryd o fwyd blasus
cyn teithio am adre.

Ym mis Awst dechreuwyd y
diwrnod drwy deithio i Arberth,
a chael tua dwy awr a hanner yn
y fan honno. Dod am nôl wedyn
i weld Gerddi Hywel Dda yn
Hendy Gwyn ar Dâf, a chael ein
tywys drwy'r gwahanol erddi gan
y gwirfoddolwyr, a hwythau'n
esbonio'r sumbolau yno. Llawer
o hen hanes Cymru i'w gadw
mewn cof. Yn ôl eto i ffatri Caws
Gaerfyrddin, a chael gweld y broses
o wneud y caws, a chael hanes y
Cwmni gan y perchnogion. Paned
o de neu goffi, a chyfle i flasau'r
gwahanol gaws a gynhyrchir
ganddynt, - ac wrth gwrs cyfle i
brynu'r nwyddau yn y siop.

O Gaerfyrddin, mynd i Lanarthne,
lle cafwyd hanes diddorol Tŵr
Paxton, a Thŷ Middleton i ni gan
Delyth Jones. Arbenigwraig yn wir
ar hanes yr ardal yma: mae Delyth
a'i phriod Tom, wedi cyhoeddi llyfr
dwyieithog ar Hanes Llanarthne,
Ddoe a Heddiw. Merch Delyth,
- Meleri, - sy'n rhedeg yr Emlyn
Arms yn Llanarthne, a chafwyd
pryd arbennig yno cyn mynd am
adre. Diolch i Brenda a Sulwen am
drefnu'r daith ddiddorol yma.

Bydd trip ola'r haf ar Ddydd
Mercher, Medi'r 14eg, ac mae'r
daith hon yn chael ei threfnu gan
Ann Walters (Brynhogfaen gynt).
Enwau i Yvonne 480590.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â theulu
y diweddar Margaret Griffiths,
Maes-y-felin Isaf sef Helen, Yvonne
a David a'u teuluoedd ar golli eu
mam ganol mis Gorffennaf.

Gwellhad Buan

Treuliodd Arwyn Jones, Gellideg
gyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar.
Hefyd i Megan Evans, Cefnruddlan
Isaf ar ôl iddi gwympo yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Hanna Davies,
Ger-y-nant ar basio Arholiad Gradd
5 Canu gydag anrhydedd. Da iawn ti.

Diolch yn fawr i'r rheini
ohonoch sydd wedi
ymuno â Chlwb Clonc.

Erbyn hyn mae
gennym **531** o enwau.
Tipyn o record yn wir.

Cofiwch, nid yw yn rhy
hwyr i ymuno - felly, os
ydych am wneud
danfonwch £5 yn y post
yn y dyddiau
nesaf.

Diolch yn fawr i'r
gwirfoddolwyr sydd wedi
bod yn casglu: Avanna
Evans, Eirlys Owen,
Eifion ac Yvonne
Davies,
Dylan Lewis a
Mary a Nia Davies.

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

☎ **01570 423921**

☎ **07867 945174**

Clwb Clonc

Medi 2016

£25 rhif 136 :

Daniel Evans,
Tandderi, Llanwenog

£20 rhif 175 :

Graham Evans,
Fferm Felinfach, Cwmann,
Llambod

£15 rhif 421 :

Eira Price,
Gelli, 1 Brynsteffan, Llambod.

£10 rhif 384:

Huw Morgan,
Rhyd-y-felin, Drefach.

£10 rhif 317 :

Mrs Nanna Jones,
Garth, Cwrtnewydd.

£10 rhif 465 :

Olwen Thomas,
12 Quentin's Close, Llanfleiddian,
Y Bontfaen.

£5 rhif 273 :

Mrs Gillian Jones,
Meysydd, Drefach.

Brynteg

18 oed

Yn ystod wythnos y Sioe Frenhinol
dathlodd Sara Davies, Bryndolau ei
phen-blwydd yn 18 oed.

Wyres fach

Llongyfarchiadau mawr i Huw
a Nans Davies, Gweithdy ar ddod
yn ddatcu a mamgu i Beca Luned,
merch fach i Steffan a Lowri yng
Nghaerfyrddin. Dymuniadau gorau i
chwi fel teulu.

Pentrebach

Wyres fach

Llongyfarchiadau i Malcolm
ac Ann Davies, Glanyrafon ar
enedigaeth wyres fach arall sef Casi
Fflur, merch fach i Hadi a Bledwyn
ym Mhenrhiwllan.

Graddio



Llongyfarchiadau mawr i Carwen
Richards, Cysgod y Dderwen ar ei
llwyddiant yn graddio o Brifysgol
Bangor gyda B.A. Anrhydedd
(Dosbarth Cyntaf) yn y Gymraeg ac
Addysg Gorfforol, gyda Phrofiad
Rhyngwladol. Da iawn ti. Bydd
Carwen yn cychwyn ar gwrs ymarfer
dysgu yng Nghaerdydd ym mis
Medi.



Llongyfarchiadau mawr i Pat
Jones o Bencarreg ar ennill gradd
dosbarth cyntaf mewn astudiaethau
cymdeithaseg o Brifysgol Cymru
Dewi Sant. Pob lwc iddi yn ei swydd
newydd.

Llanfair Clydogau

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Ceris Quan, Sŵn yr Afon, ar dderbyn gradd dosbarth cyntaf yn B.A Addysg Gynradd gyda S.A.C. O Goleg y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin. Mae wedi derbyn swydd yn Ysgol T. Llew Jones, Brynhoffnant yn dechrau ym mis Medi. Pob lwc i ti Ceris.

Llongyfarchiadau hefyd i Ffion, ei chwaer, am gael canlyniadau ardderchog yn yr arholiadau lefel A. Mae Ffion wedi cael ei derbyn ym Mhrifysgol Caerdydd i astudio daearyddiaeth a chynllunio. Pob lwc i tithau, Ffion.

Pleser mawr oedd clywed hefyd am lwyddiant Vaughan Evans, Tallyllychau, gynt o Waunwen ar ennill gradd yn y gyfraith o Brifysgol Bryste. Llongyfarchiadau cynnes iddo.

Symud Tŷ

Hoffem ddymuno'n dda i Alan a Glenys Taylor, Tŷ Capel, sydd newydd symud i fyw i Aberaeron ar ôl byw yn Llanfair am dros ugain mlynedd. Gobeithio y byddant yn hapus yn eu cartref newydd.

Arddangosfa



Cafwyd arddangosfa gelf lwyddiannus iawn eto eleni am y trydydd blwyddyn yn olynol. Roedd deg o artistiaid lleol yn dangos eu gwaith yn neuadd y pentref gydag amrywiaeth eang. Yn ôl sylwadau a ysgrifennwyd yn llyfr yr ymwelwyr roedd y gwaith o safon arbennig.

Sefydliad y Merched

Cynhaliwyd parti dathlu naw deg o fodolaeth y Sefydliad yn Llanfair, i fyny ym Mhenlanmedd trwy groesawiad cynnes Elaine a Ron Coombes. Roedd y croeso yn unigryw gan fod y Frenhines yno wrth y drws yn ein cyfarch. Brenhines ffug ydoedd wedi ei gwneud allan o gard trwchus ond yn effeithiol a naturiol dros ben. Daeth llawer o aelodau a ffrindiau ynghyd gyda phawb wedi cyfrannu bwyd. Fel arfer roedd yr amrywiaeth yn anhygoel a phopeth yn flasus dros ben. Roedd yn noson braf a chlir a'r olygfa o'r tŷ yn hyfryd i lawr i gwm yr Afon Teifi a draw dros mynydd Llanfair. Cafwyd noson arbennig o gymdeithasu mewn cwmni da. Diolch o galon i Elaine a Ron am agor eu cartref a'u gardd hyfryd i ni.



Cydymdeimlo

Trist oedd clywed am farwolaeth Wes Waring, Esgaircrwys, a ddaeth i fyw i'r ardal fel 'hipi' tua 45 mlynedd yn ôl. Athro ydoedd ond daeth yma gyda dim ond bag o offerynnau saer.

Dros y blynyddoedd fe wnaeth adeiladu busnes lewyrchus 'Woodfellows' yn gwneud celfi cain, clocio, pulpudau a gwaith saer gwyh. Daeth yn

adnabyddus dros yr holl ardal, yn ddyn tawel hoffus oedd yn caru byd natur, yn wrandawr ac yn feddyliwr. Mae yn gadael ar ei ôl ei wraig Ros, ei ddwy ferch Ruth a Mary a'i fab Cyrus a fydd nawr yn rhedeg y fusnes. Estynnwn ein cydymdeimlad iddynt oll.

Hefyd trist oedd clywed am farwolaeth John Jenkins, gŵr i Enid gynt o Wernfawr, Llanfair.

Bu John yn gweithio ym manciau lleol yn Nhregaron a Llanbedd cyn iddo ymddeol i fyw i Aberaeron.

Estynnwn ein cydymdeimlad â'r holl deulu.

Cydymdeimlwn hefyd â Lawrence a Linda Quelch. Bu farw tad Lawrence yn ddiweddar ar yr Ynys Wyth.

Diolchiadau

Dymuna Ffion Quan, Sŵn yr Afon, ddiolch am y dymuniadau da a gafodd adeg ei harholiadau lefel A.

Hefyd, hoffai ddiolch i bawb am y cardiau, anrhegion a'r arian a dderbyniodd pan yn dathlu ei phenblwydd yn ddeunaw oed yn ddiweddar. Gwerthfawrogwyd y cyfan yn fawr iawn.

Hoffai Ceris hefyd ddiolch am yr holl ddymuniadau da a gafodd hithau adeg y graddio. Diolch o galon.

Ymweliad gyda Tywysog Cymru



Y Tywysog Charles yn cwrdd â'r artist lleol Aerwen Griffiths, Llanfair tra ar ei ymweliad â Llanddewi Brefi ar ddechrau mis Gorffennaf.

Cellan

Priodasau

O fewn deuddydd i'w gilydd priododd dau o blant y pentref sef Llyr Thomas, Llain-deg a Rhian Owen o Gwm Gwendraeth ac yna Lowri Daniel, Llys Barcud a Gwyn Loader o Gaerdydd.

Dymuniadau gorau a iechyd da i chwi eich pedwar yn eich bywyd priodasol.

Capel yr Erw

Cynhelir cyfarfod o Fudiad Chwiorydd yr Annibynnwyr, De Ceredigion yng Nghapel yr Erw, Cellan, ar Nos Fercher Medi 21ain 2016 am 7 o'r gloch.

Ceir anerchiad gan y gŵr gwâdd Y Parchedig Athro D Densil Morgan DPhil, DD, FLSW.

Testun yr anerchiad fydd "Saunders Lewis, William Williams, Pantycelyn a 2017."

Apeliwn am gefnogaeth chwiorydd yr ardal. Croeso.

Cwrdd Diolchgarwch

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Capel yr Erw, Cellan ar nos Fawrth Hydref 11eg 2016 am 7 o'r gloch.

Llangybi a Betws Bledrws



Ysgol Y Dderi

Ar ddydd Mawrth y 5ed o Orffennaf cynhaliwyd dau berfformiad o sioe'r plant. Ysgrifenydd y sgript yn arbennig gan y Prifardd Dylan Iorwerth a oedd yn sôn am ddisgyblion 1976 yn teithio ymlaen mewn amser i 2016, ac yn cael eu tywys o gwmpas Ysgol y Dderi heddiw. Agorwyd y sioe gyda darllediad radio arbennig gan Hywel Gwynfryn ei hun ac roedd nifer o ganeuon adnabyddus o 1976 yn ystod y perfformiad. Daeth hyd yn oed Sali Mali i ymuno â ni!! Diolch i Theatr Felinfach am sicrhau sioe broffesiynol a graenus a fydd yn aros yn y cof am amser maith.

Nos Fercher, 6ed o Orffennaf cynhaliwyd noson ffilm yn neuadd yr ysgol a gweinwyd caws a gwin i'r gynulleidfa. Beth oedd testun y ffilm? "Ysgol Y Dderi - An area school 1976". Darganfuwyd y ffilm yn stordy'r ysgol a thrwy garedigrwydd y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth, trosglwyddwyd yr hen ffilm i DVD. Roedd nifer yn y gynulleidfa yn ymddangos ar y ffilm ac er fod deugain mlynedd wedi gwibio heibio, roeddwn yn medru tystio fod amser wedi bod yn garedig iawn iddynt. Cawsom wefr wrth adnabod yr holl wynebâu a chysur wrth weld cymeriadau sydd wedi ein gadael yn dod yn fyw ar sgrin unwaith eto. Cawsom noson i'w chofio.

Ar brynhawn dydd Iau, 7fed o Orffennaf agorwyd drysau'r ysgol i'r cyhoedd. Tywyswyd

yr ymwelwyr yn hamddenol o gwmpas y safle gan ddisgyblion hŷn yr ysgol cyn dychwelyd i'r ystafell athrawon ble oedd Clwb Coganio'r ysgol wedi paratoi gwledd. Cafwyd brechdanau ciwcymbyr, sgons, bara brith, cacen lemwn a diod ysgawen – y cyfan wedi eu baratoi gan y plant. Braf oedd cael croesawu dau cyn bennaeth sef Mr Huw Jenkins a Mrs Ann Davies.

Roedd Miss Sue ein cogyddes wedi paratoi cacen pen blwydd anferth i'r ysgol ar Ddydd Gwener, 8fed o Orffennaf. Torrwyd y gacen gan ddisgybl hynaf a ieuengaf yr ysgol sef Vicky Bruce a Duncan Spooner – blasus iawn wir. [Llun uchod].

Yna, y noson honno cynhaliwyd gŵyl gerddorol yr ysgol sef "Glaston-Dderi". Adeiladwyd pabell anferth, hardd ar y cae chwarae a chafwyd noson o gerddoriaeth ysgafn, bwyd a diod yng nghwmni ein gilydd. Canodd y dosbarth Meithrin "O dan y dŵr", dosbarth Derbyn "Ben-dant", merched Blwyddyn 1 a 2 "Under the sea", bechgyn Blwyddyn 1 a 2 "Gemau Olympaidd", Blwyddyn 3 "You've got a friend in me", Blwyddyn 4 "Harbwr Diogel", Blwyddyn 5 a 6 "Rhedeg i Baris" a "Together Stronger". Cafwyd tri perfformiad hyfryd gan rieni a ffrindiau'r ysgol hefyd. Dyna beth oedd noson i'r brenin.

Diolch i bawb a gyfrannodd tuag at wythnos o ddathliadau llwyddiannus iawn yn hanes yr ysgol. Ymlaen i'r deugain nesaf!!



Pob lwc i holl ddisgyblion Ysgol Y Dderi sy'n symud ymlaen i dderbyn eu haddysg uwchradd. Rydym yn gweld eich eisiau yn barod!



Pencampwr yn Adran y Gwartheg Duon Cymreig yn Sioe Llambod oedd heffer dwy flwydd oed o eiddo Eirian Lewis, Llangybi.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Sioned Evans, 5 Godre'r Coed, ar dderbyn canlyniadau arbennig yn ei haroliadau TGAU. Cafodd hi dwy A* ac un A. Dal ati, Sioned.

Cydymdeimlo

Daeth y newyddion trist ar ddiwedd mis Awst am farwolaeth Allan C. Jones, Hengoed. Cydymdeimlir yn ddwys iawn â'r meibion a'u teuluoedd yn eu galar.

Cyrrddau Diolchgarwch

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Maesyffynnon ar brynhawn Mercher, Medi 14eg am 2.00y.p. pan fydd y Parch Eileen Davies yn gwasanaethu.

Yna ar brynhawn Sul, Medi 25ain am 2.00y.p. bydd Oedfa Diolchgarwch Ebenezer pan y pregethir gan y Parch Andy Herrick.

Ac yna ar nos Sul, Medi 25ain am 6.00y.h. bydd Diolchgarwch yr Eglwys gyda Caplan Ysbyty Glangwili yn gwasanaethu.

Estynnir croeso cynnes i chi gyd i'r dair oedfa yma yn Llangybi.

THE
FALCONDALE
HOTEL & RESTAURANT
GWESTY A BWYTY

Noswaith Tapas a Gwin

Nos Wener, Medi 16eg

Ymunwch â ni am noswaith Sbaeneg yn y bwyty o 7 o'r gloch. Am £15 y pen cewch flasau gwin o Sbaen a rhannu dysgl o Tapas.

Cewch archebu gwinoedd a Tapas trwy'r nos oddi ar fwydlenni'r Falcondale.

01570 422910

info@thefalcondale.co.uk

www.thefalcondale.co.uk

Gŵyl Cerdd Dant



Gŵyl Cerdd Dant Llandysul a'r Fro 2017

I'r rhai ohonoch sydd heb glywed eisoes, rydym yn falch iawn o gyhoeddi y bydd yr Ŵyl Cerdd Dant yn dod i Landysul ym mis Tachwedd y flwyddyn nesaf. Bydd Gŵyl Cerdd Dant Llandysul a'r Fro 2017 yn gyfle euraidd i ddod â budd economaidd a chyhoeddusrwydd i'r dref ac yn gyfle gwych i arddangos rhinweddau arloesol Ysgol Bro Teifi lle bwriedir cynnal yr Ŵyl. Mae'r gwaith paratoi eisoes wedi dechrau a phawb yn awyddus i sicrhau y bydd Gŵyl Cerdd Dant Llandysul a'r Fro yn un llwyddiannus a llewyrchus. Fel y gallwch ddychmygu, mae gwahodd Gŵyl fel hon i'r fro yn fater costus ac mae tipyn o her o'n blaenau i godi'r targed ariannol o £40,000 ac felly gofynnwn yn garedig am gymorth a chefnogaeth ariannol. Os hoffech noddi'r Ŵyl neu'i chefnogi mewn unrhyw ffordd, anfonwch neges e-bost at noddwyr@gwylcerdddant2017.cymru neu ffoniwch un o ysgrifenyddion yr is-bwyllgor cyllid i gael pecyn nawdd a mwy o fanylion – Julia James ar 01239 710808 neu Ellen Evans ar 07877 241877. Er mwyn lansio'r cyfan, cynhelir cyngerdd fawreddog yn Ysgol Bro Teifi nos Wener 4 Tachwedd eleni am 7.30pm i gyhoeddi bod yr Ŵyl yn dod i Landysul flwyddyn nesaf. Ymhlith yr artistiaid bydd Côr y Wiber, Catrin Aur, Fortza, Elen Morgan, Dawnsyr Talog a Chôr Bro Teifi, a'r cyfan dan arweiniad medrus Iwan Griffiths. Bydd tocynnau yn £10 i oedolion a £5 i blant 16 ac iau.

Ffarmers

Llongyfarchiadau

Estynnwn ein cyfarchion i Gwennan Evans, Glastir ar ei llwyddiant yn ennill Gradd PhD o Brifysgol Abertawe mewn Ysgrifennu Creadigol. 'Roedd Gwennan hefyd yn aelod o dîm 'Y Ffoaduriaid', ynghyd â'i phriod, Gruffydd Owen, a enillodd Y Talwrn yn Eisteddfod y Fenni a'r Cyffiniau yn ddiweddar. Da iawn ti.

Swyddfa Bost, Ffarmers

Yn dilyn nifer o flynyddoedd fel is-bostfeistr yn Ffarmers, mae Darrell Garwood wedi penderfynu rhoi'r gorau i'r swydd y flwyddyn nesaf. 'Rydym fel cymuned yn ddiolchgar dros ben i Darrell am flynyddoedd o wasanaeth gwerthfawr i'r gymdogaeth, ac am sicrhau bod y gwasanaeth ar gael i ni'r defnyddwyr. Diolch Darrell.

Wrth fod Darrell yn rhoi digon o rybudd o'i fwriad, mae yna nawr gyfle i chwilio am olynydd. Felly, os oes gan rywun ddiddordeb yn y swydd, gallwch gysylltu â Darrell yn y Swyddfa Bost, ac mi fydd yn fwy na pharod i egluro gofynion y swydd, a sicrhau yr hyfforddiant priodol.

Bethel, Cwm Pedol

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch yr eglwys ym Methel ar nos Fercher, y 14eg o Fedi am 7.00y.h. Pregethir gan Y Parchedig John Gwilym Jones, Caerfyrddin. Croeso cynnes i bawb.

'Defibrillator'

Mae Cyngor y Neuadd wedi llwyddo yn ei cais i brynu 'defibrillator' i'r gymuned leol, ac estynnir croeso i drigolion yr ardal dderbyn hyfforddiant ar ddefnyddio'r teclyn. Mae sesiynau hyfforddi yn cael eu cynnal yn y Neuadd, a'r cyd-gysylltwyr ar gyfer y cynllun yw Judy Jenkins a Gwyneth Richards – cysylltwch â hwy am ragor o wybodath.

Sioe Caio a Llanycrwys

Cynhelir y Sioe flynyddol eleni ar ddydd Sadwrn, y 3ydd o Fedi yn Neuadd Bro Fana, ac ar Barc Bro Fana. Bydd yna ddosbarthiadau ceffylau, defaid, cŵn, cynnyrch fferm a gardd, blodau, coginio, gwaith llaw, ffotograffiaeth, dosbarthiadau i'r plant ag ati. Ymunwch â ni am ddiwrnod hwylus a chymdeithasol. Ein Llywydd eleni yw Gwyn Jones, Tycerrig gynt – un a fu'n weithgar iawn gyda'r Sioe ers iddi ail-gychwyn yn y 70'au.

Os hoffech
gynorthwyo'r
gwirfoddolwyr gyda'r
gwaith o gynhyrchu'r
papur hwn, croeso i
chi gysylltu ag un o'r
bwrdd busnes.

Os hoffech gynorthwyo'r
gwirfoddolwyr gyda'r
gwaith o gynhyrchu'r
papur hwn, croeso i chi
gysylltu ag un o'r bwrdd
busnes.

Cwrtnewydd



Mabolgampau Cwrtnewydd

Fe ddaeth y glaw ar ddiwrnod Mabolgampau blynyddol Cwrtnewydd, ac ni fedrwyd rhedeg y rasys y tu allan. Cafwyd prynhawn llawn hwyl yn neuadd yr Ysgol a'r plantos i gyd yn mwynhau mas draw. Llywyddion y Dydd oedd Sulwen a Gareth Lloyd, Ucheldir ac fe gafwyd gan Sulwen araith bwrpasol iawn, ac fe gyfrannodd y ddau yn hael iawn i'r gronfa.

Yn ystod y dydd trosglwyddwyd arian i Gylch Ti a Fi Cwrtnewydd, Pwyllgor Henoed Llanwenog ac Ysgol Gynradd Cwrtnewydd gan bwyllgor y Mabolgampau – diolchodd y 3 sefydliad am eu rhoddion hael. [Gwelir y llun uchod].



Capel y Bryn

Dyma lun o Parch Wyn Thomas yn cyflwyno rhodd i Mrs Anne Thomas, Milford ar ran cynulleidfa Capel y Bryn, Cwrtnewydd i ddiolch iddi am 55 mlynedd o wasanaeth diflino fel ysgrifennydd y capel. Ie, 55 mlynedd! Ers 1961!

Diolch Anne am bopeth.

Llwyddiant

Llongyfarchiadau i bawb o'r ardal sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn yn y Sioe Frenhinol ac hefyd yn y sioeau lleol yn ystod yr haf. Mae lluniau nifer ohonoch yn ymddangos yn y rhifyn yma o Clonc.

Cydymdeimlo

Yn ystod mis Awst bu farw Sally Harries, 2 Clarence House yng Nghartref Maes-y-felin, Drefach. Bu'r angladd preifat yn Amlogsgfa Aberystwyth. Cydymdeimlir yn ddwys iawn â'i gŵr Walter, a'r perthnasau i gyd sydd yn byw yn yr ardal.

Priodas

Ar Sadwrn olaf y mis priodwyd yng Nghapel y Bryn Daniel ac Angharad, 6 Cae Sarn, Cwrtnewydd. Pob dymuniad da i'r ddau i'r dyfodol.

Llanwnnen



Llywyddion Sioe Llambod, Arwyn ac Eleri Davies, Pentre, Llanfair yn cyflwyno David Thomas, Llanwnnen gyda Gwobr Pencampwr y Pencampwyr yn Adran y Gwartheg. Yn y llun gwelir ei Limousin x British Blue a enillodd iddo y wobwr.



Erika Davies, Llanwnnen yn ennill gwobr arbennig yn Adran y Blodau, Adran Celfyddyd Blodau a'r Llysiau. Enillodd gwpan ar gyfer yr unigolyn lleol gyda'r marciau uchaf yn Sioe Llambod.



Hufen Iâ o Bantri Pantydderwen, Llanwnnen gan Gavin McCowen a Delyth Thomas yn Ffair Fwyd Llambod.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad â Alan ac Ann Jones, Annedd Wen ar golli modryb yn ystod mis Awst sef Essie Jones, o Rydowen.

Hefyd, cydymdeimlwn yn ddwys â theulu'r diweddar Doris Elen Baker, Brynteg a fu farw yn Ysbyty Glangwili yn ystod mis Awst.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Luned Jones, Blaenwaun-ganol, ar ei llwyddiant yn ei harholiadau Lefel A a phob lwc iddi ym Mhrifysgol Harper Adams, Swydd Amwythig (Shropshire).

Llongyfarchiadau hefyd i'w chwaer, Alaw, a enillodd y gyfres o rasys i ferched 11 – 13 oed ar Draeth Poppit ger Aberteifi dros yr haf. Sicrhodd Alaw y wobwr gyntaf yn y dair ras yn y gyfres ar ei chynnig gyntaf.

Yr Eglwys

Bedyddiwyd dau blentyn bach yn ystod yr haf, sef Casey mab David a Tracy Shepherd, Brynsteffan, Llambod a Kyron mab Jason a Sammy White, Heol Hathren, Cwmann. Pob bendith i'r ddau deulu ifanc.

Sioe Gorsgoch – Yr Eglwys yn y Gymuned

Bu stondin gyda'r eglwys yn Sioe Gorsgoch. Casglwyd dros £100 tuag at elusen y sioe a chafodd y plant a'r oedolion hwyl. Diolch i Mandy am drefnu'r diwrnod.

Ysgol Llanwnnen

Croeso mawr i Levi sydd wedi cychwyn yn y dosbarth Derbyn. Mae wedi ymgartrefu yn dda i fywyd yr ysgol.

Bu nifer fawr o ddisgyblion yr ysgol yn brysur dros yr haf yn cystadlu mewn amryw o sioeau gyda gwaith celf ac wrth ddangos anifeiliaid. Llongyfarchiadau i baw a fu yn llwyddianus a braf oedd gweld eich lluniau yn y wasg.

Ar ddiwedd tymor yr Haf cynhaliwyd Ffair Haf flynyddol yr ysgol. Er bod y tywydd braidd yn stormus cafodd pawb amser da gyda phrysurdeb mawr yn y stondinau a chystadleuaeth bêl droed 5 pob ochr arbennig. Ysgol Henry Richard (campws Tregaron) enillodd gystadleuaeth y bechgyn ac ysgol Carreg Hirfaen yn ennill cystadleuaeth y merched. Diolch i'r holl rieni a ffrindiau a fu'n helpu i drefnu a chynnal y Ffair Haf, a diolch i baw a ddaeth i gefnogi.

Bu'r disgyblion ym Mharc Deinasoriaid Dinbych y Pysgod ar eu trip blynyddol. Roedd y tywydd yn wych ac fe gafodd baw hwyl yn cerdded ar hyd y saffari deinasoriaid, chwilio am ffosiliau ac yn mwynhau ar y llithren ddŵr. Dyma oedd ddiwedd glo arbennig i dymor prysur.

TEIARS
HUW LEWIS

TYRES

TEIARS

BRECOS

BATER

GWACAWYR

HUWLEWISTYRES.COM
LLANBEDR PONT STEFFAN
01570 422221

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543623
Caerwenog,
Penffordd,
Llanybydder,
Ceredigion,
SA40 9XG
Darparu gatiâu a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio

Mwnci ffwnci

Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.
Sioned Green
a **Mared Jones**
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambod
01570 423135
07811917799 /
07968821035
mwnciffwnci@hotmail.com

Gwasanaethau Coed
Teifi
Tree Services

Pob math o waith ar goed
Torri cloddiau * Plygu cloddiau
Wedi yswirio'n llawn
Dyfnbris am ddim
Coed tân ar werth
Lyn Davies
01239 851001 / 07796 682448

Sefydlwyd 1797
D. Lloyd a'i Feibion
Glanrwyth, Pumsaint,
Ffôn: 01558 650209 a 650451,
Ffacs: 01558 650440
Masnachwyr coed
a nwyddau adeiladu
a ffensio o bob math
Glo caled a glo meddal
o'r ansawdd gorau

LYN JONES
"At eich gwasanaeth"

- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
- Symud celfi
- Unrhyw waith o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
- Wedi yswirio'n llawn

01570 481029
Lakefield, Llanybydder, SA40 9RL



Enw: **Lauren James**
Oed: 20
Pentref: Llanybydder
Gwaith: Cynorthwy-dd
Gweinyddol- T L Thomas & Son
Partner: Rhodri Young
Teulu: Mam, Dad a Jordan (Brawd)

Unrhyw hoff atgof plentyndod:
Mynd i Somerset i chwarae pêl droed gyda thîm merched 'Teifi Girls' Llanybydder.

Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn:
Teletubbies

Yr eiliad o'r embaras mwyaf.
Cwmpo ar noson allan wrth wisgo esgidiau uchel.

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.
I fod yn garedig a chwrtais

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?
Athrawes Ysgol Gynardd

Beth oedd y peth ofnadwy wnest ti i gael row gan rywun?
Dwyn cacenau o dŷ mamgu gyda fy nghefnither

Y peth mwyaf rhamantus a wnaeth rhywun i ti erioed?
Dal i aros..

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?
Cyda fy nheulu, ffrindiau a sboner

Beth yw dy lysenw?
Loz, Lau, Loza

Pwy yw dy arwyr?
Kelvin James (Dad)

Beth yw'r peth gorau am dy swydd bresennol?
Agos i adre a'r pobol rwy'n gweithio gyda.

Y peth gorau am yr ardal hon?
Golygfa cefn gwlad pob dydd

Y peth gwaethaf am yr ardal hon? Pawb yn gwybod busnes



pawb

Pa iaith wyt ti'n defnyddio gyntaf?
Cymraeg

Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?
Person hunanol a dau wynebog

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?
Trefnu gwyliau

Beth sy'n codi ofn arnat?
Nadroedd

Beth oedd y celwydd diwethaf i ti ddweud?
Sai byth yn dweud celwydd!

Am beth wyt ti'n breuddwydio?
Ennill y lottery.

Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n broffesiynol?
Cael swydd llawn amser.

Ac yn bersonol?

Pasio prawf gyrru

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n heini?
Rhedeg a cerdded sawl gwaith pob wythnos

Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.:
Pan gwrddes i â Rhodri

Disgrifia dy hun mewn tri gair:
Caredig, hapus a threfnus

Pa gar wyt ti'n gyrru?
Audi A1 gwyn

Gyda phwy fyddet ti'n hoffi bod yn sownd ar ynys anghysbell?
Rhodri wrth gwsr!

Beth yw dy ddiod arferol?
Vodka lime a lemonade!

Beth yw dy hoff arogl?
Persawr- Jimmy Choo

Sut wyt ti'n ymlacio?
Yn y bath gyda digon o radox!

Pa wefan wyt ti'n ymweld â hi fwyaf aml?
Facebook a twitter

Sawl ffrind sydd gennyt ti ar facebook?
857- ise good clear out!

Hoff gân ar dy ipod?
Coldplay- 'Hymn for the weekend'

Pa un peth fyddet ti'n newid am dy hun?
Fy nghroen

Heblaw'r teulu, beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?
Lluniau personol

Oes yna rywbeth na elli di ei wneud y byddet ti'n hoffi ei gyflawni'n dda?
Canu

Beth fyddet yn ei wneud pe na baet yn gwneud y gwaith hwn?
Dim idea ond bendant ddim eistedd adre yn neud dim!

Pa beth wyt ti'n ei drysori fwyaf?
Teulu, ffrindiau a iechyd!

Pwy oedd y dylanwad mwyaf arnat ti?
Tadcu hen (Eben)

Pwy sy'n ddylanwad arnat ti nawr?
Mam a dad- wastad yna i roi cyngor

Y gwyliau gorau? Zante gyda'r merched a Tenerife gyda Rhodri.

Pa dri lle yng Nghymru yr hoffet ymweld â nhw cyn dy fod yn hanner cant?
Yr Wyddfa, Pen y Fan a Llys Y Fran

Pa dair gwlad yr hoffet fynd iddyn nhw cyn marw?
Awstralia, Seland Newydd a Mexico

Cyfrinachau'r rhifyn nesaf:
Rhys Douglas, Cwmann.

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boc yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw _____
Cyfeiriad _____
Cod post _____
Rhif Ffôn _____

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

9	4		7				5
3				6			9
1	8				5		
			5			4	
	2		6		7		1
		3			9		
			8				3 6
	1			5			2
5				6		8	1

Swdocw Gorffennaf:

Llongyfarchiadau i **Gwenan Haf Jones, Cae Seiri, Caerfyrddin**, ac i bawb arall am gystadlu: Joan Statcey, Tynwaun, Ffaldybrenin; Eirian Jones, Bro Teifi, Alltyblaca; Eurwyn Davies, Heol-y-Gaer, Llanybydder; Avril Williams, Y Fedw, Cwmann; R Jenkins, Gelli House, Llanybydder; Sian Blake, Penlon Cottages, Gorsgoch; Susan Pendle, Bro Nantlais, Gwyddgrug a Bethan Williams, Neuadd Fryn, Llanybydder.

6							
	3			6		2	
		7					9
	6		7		8		5
		3		1		8	5 2
2	4		3		9		7
		5				7	
1				3			4
	6						1



Tynrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Shw mae? Wel mae'r haul wedi bod yn gwenu arnom yn ystod gwyliau'r haf eleni. Beth fuoch chi'n ei wneud yn ystod y gwyliau? Wel mi fues i yn adeiladu cestyll tywod ar draeth Cei bach, es i am dro yn y goedwig, am drip i'r pwll nofio a chael sawl picnic gyda'm ffrindiau. Gwyliau bendigedig!! Ond nawr mae'n amser i'r ysgol ail ddechrau a chyfle i weld hen ffrindiau a chwrdd â ffrindiau newydd.

Cefais lond sach o luniau lliwgar dros yr wythnosau olaf yma. Roedd y postmon yn gorfod cael help llaw i gario'r holl luniau i'r tŷ. Roeddwn yn hoff iawn o luniau Leila Brown, Jack Rogers, Jayce Jones, Liwsi Brown, Marged Elen Evans, Alissa Rees-Wise ac Elis Aur Hayward o Felinfach, Maia Morgans, Gwion Miles, Elen Michelle Casso-Davies, Tomos Ceredig Casso-Davies a Kayla Thompson o Demple Bar, Jack Bartlett, Logan Bartlett a Seren Evans o Gribyn, Ioan Price o Dalsarn, Lewis Jones o Gilcennin a Tomos Jac Dalton o Greuddyn Bridge a Mari Rees o Gwmsychpant. Ond y llun taclusaf a'r un mwyaf lliwgar oedd un Elin Morgan, Llys-Owen, Cribyn. Da iawn bawb! Diolch yn fawr iawn i chi gyd am gystadlu y mis diwethaf a llongyfarchiadau mawr iawn i ti Elin!

Nawr beth am fynd ati i liwio llun o'r plant yma mwynhau eu diwrnod cyntaf yn yr ysgol? Cofiwch ei ddychwelyd i mi cyn dydd Llun, Medi 26ain. Mwynhewch eich lliwio!

Ta ta tan toc.



Enillydd
y mis!

Elin
Morgan

Os ydych yn ymateb i hysbyseb yn CLONC,
dywedwch wrth y cwmni ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne



RHAI O ENWAU BRO'R EISTEDDFOD (86)

Rhai o enwau Sir Fynwy a Gwent fydd yn cael sylw am y misoedd nesaf.

Mae'r hen Sir Fynwy (1536-1974) yn amrywiaeth ddiddorol o ran tirwedd, amaethyddiaeth a diwydiant. Mae dwyrain y sir yn cynnwys ucheldiroedd yn ogystal â gwastadeddau eang a choetir sylweddol; trefi marchnad ynghyd â phlwyfi bychain hynafol. Ond nodweddir gorllewin y sir, gan borfeydd mynydd, cymoedd cul a threfi a phentrefi diwydiannol. Ond mae dwyrain a gorllewin y sir yn cael eu huno gan drysorfa o enwau diddorol a hanesyddol. Afon Mynwy a roddodd ei henw i DREFYNWY ond anodd bod yn bendant am ystyr yr enw hwnnw. Mae'n bosibl ei fod yn dynodi 'llif grymus' (fel yn achos y Fenai sy'n gwahanu Sir Fôn oddi wrth y tir mawr).

Mae'r Gymraeg wedi gwanhau'n enbyd ar draws y sir, ond enwau Cymraeg yw dros 90% o enwau lleoedd y sir - ac mae o leiaf 65 o enwau yn cynnwys yr elfen gyffredin 'llan' sef eglwys, megis er enghraifft LLANGYBI, LLANDEGFEDD a LLANDOGO sy'n coffáu'r seintiau Cybi, Tegfedd ac Euddogwy.

Mae'r enwau lleoedd Saesneg cynharaf fwyaf cyffredin yn nyffryn Gwy a ger Aber Hafren. Ond mae i'r rhan fwyaf o'r lleoedd hynny, hyd yn oed, naill ai enw Cymraeg neu ffurf Gymreig.

Yn sgil y Chwildro Diwydiannol, denwyd llu o ymfudwyr o Loegr a thu hwnt i'r gweithfeydd haearn, i'r pyllau glo ac i'r trefi a oedd yn tyfu yng ngorllewin y sir. A dyma gyflwyno i'r sir enwau newydd megis WATTSVILLE a PHILLIPSTOWN (sy'n coffáu dau ddiwydiannwr), SEBASTAPOL (ar ôl y frwydr) BEAUFORT (sy'n coffáu trefeddiannwr o bwys), a Victoria (i goffáu'r frenhines). Weithiau cafodd enwau Cymraeg hŷn eu cyfieithu: aeth LLANDDINGAD yn DINGESTOW, y naill ffurf a'r llall yn dynodi 'eglwys (Sant) Dingad'; ac aeth LLANFIHANGEL TRODDI yn MITCHELL TROI sy'n dynodi 'eglwys (Sant) Mihangel ger (afon) Troddi. A dyna LLWYFOS 'man lle y mae digonedd o goed lwyf' wedi'i hailddechogli'n LIVEOAKS yn union fel petai derw yn ffynnu yno. Ceir yn Sir Fynwy hefyd enwau lleoedd o darddiad Eingl Normanaidd megis MALPAS, 'ffordd anodd, wael' ar y ffordd Rufeinig sy'n estyn i'r gorllewin o Gaerffili i gyfeiriad Caerdydd, a GROSMONT 'bryn mawr', sy'n cyfeirio, yn ôl pob tebyg, at y cnwc sylweddol lle y saif y castell.

GWENT

Roedd y rhan fwyaf o'r hen Sir Fynwy o fewn ffiniau teyrnas hynafol Gwent. Y tebyg yw bod GWENT yn tarddu o VENTA, yr enw Brythonaidd-Rufeinig ar dref CAER-WENT ac ar CAISTER a WINCHESTER yn Lloegr. Yn ôl rhai ystyr 'venta' oedd maes ond iddo fabwysiadu'r ystyr 'marchnad' yn sgil y dybiaeth ei fod yn perthyn i'r Lladin 'vendere' sef gwerthu. Amheuir hynny erbyn hyn, sut bynnag. Rhennid hen deyrnas Gwent yn Is-Coed ac Uwch-Coed; y ffin rhwng y ddau gantref oedd Coed Gwent, un o'r coedwigoedd mwyaf yng Nghymru.

Cawn gyfle i drafod enwau sydd o fewn cyrraedd i faes yr Eisteddfod y tro nesaf.

Mae'r nodiadau misol hyn ar enwau lleoedd yn cael eu paratoi dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org enwaulleoedd@gmail.com

Papurau Bro Ceredigion Eisteddfod Ddwl

Hydref 14eg yn Neuadd Felinfach

Drysau yn agor am 7 i ddechrau am 7.30

Beirniad: John a Menna Jones

Arweinydd y Noson: Keith Evans

Mynediad £3.00

Yr Angor
Y Barchud
CLONC
Y Dolen
Y Dwrgrig
Y GAMBO
y Garthen
LLAIS AERON
Papur Pawb
Y TINCER

O'r Llwyfan
Dweud J8c
Sgets - Yn y Mart
Dweud stori a stumiau i bâr
Parti "Beat bocsiu" (creu synau gan ddefnyddio'r llais yn unig)
Band y Garej

Gwaith Cartref
Ysgol Gynradd: Sgets pensil o Gastell
Ysgol Uwchradd: Dyddiadur Diwrnod ar y Testun - "Dyna beth oedd diwrnod".
Dysgwyr: script "Mynd i siopa".
Brawddeg: CARLISWNS
Limeric: Wedi cyrraedd ei fleyddyn riteiro
Fe roes Shanco ei fryd ar ymfudo
Corden: Brysiwch Wella (Denial)

Anfonwch eich gwaith cartref (i dan ffugenw, gyda manylion cyswllt ac enw papur bre masn onlen wedi etodi) erbyn 1af Hydref, at:
Mr a Mrs J Jones, Tynfron, Pfair Rhes, Ystrad Meurig, SY25 6BS

CYFRI
CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY
T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:
Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA
Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS
Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aifeddiannu am eich cartref.

Gorsaf Brawf MOT

GAREJ BRONDEIFI

Heol Llanfair Road, Llambled, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Breics * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur

Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305
07974 422 305



Glanyrafon, Cwrt Dulais, Llambled

Mae datblygiad newydd cyffrous yn nhref Llanbed yn golygu bod yna fflatiau moethus ar gael yn lleol sy'n cymharu'n ffafriol â'r hyn sydd ar gael mewn lleoedd poblogaidd fel Bae Caerdydd. Mae'r adeiladwr lleol D.C. Evans wedi adeiladu 6 fflat safonol a hyfryd o fewn un adeilad tri llawr yng Nghwrt Dulais. Mae hwn yn ddatblygiad newydd ar dir gwastad, mewn ardal dawel o fewn 5 munud o bellter cerdded o ganol y dref. Maent yn gartrefi sy'n cynnig amodau byw rhwydd a di-drafferth ar gyfer pobol o pob oed. Mae 2 fflat ar ôl heb eu gwerthu ac ar gael i'w prynu. Mae'n effeithlon iawn ar ran costau gwresogi.



Manylion:

Mae yna :-

- fynedfa atyniadol, eang
- flwch post personol ar gyfer pob fflat
- lifft a grisiau i'r llawr cyntaf a'r ail lawr
- system gysylltu unigol i bob fflat ar gyfer ymwelwyr
- ddrysau allanol sy'n cloi'n awtomatig ar gyfer diogelwch
- lle parcio neilltuedig i 2 gar ar gyfer pob fflat

Mae pob fflat yn cynnwys cegin eang a lolfa gyfforddus 8.4m x 3.6m gyda drysau dwbwl yn arwain at falconi sy'n cynnig cyfle i fwynhau golygfeydd godidog o'r wlad o amgylch yn ymestyn tuag at goedwig Coed Hirion. Hefyd, mae i bob fflat, ystafell ymolchi, 2 ystafell wely (gyda'r opsiwn o gael en-suite neu ystafell wisgo yn arwain o'r ystafell wely fwyaf). Mae yna ddigonedd o gypyrddau ar gyfer storio.

Gwresogir y fflatiau gan 'foiler combi' nwy.



Mae'r datblygiad hwn wedi ennill gwobr gan LABC Cymru am yr adeilad gorau o'i fath yng Ngheredigion yn 2016.



Gallwch fod yn sicr o gartref hyfryd o'r safon uchaf wedi ei adeiladu gan grefftwyr gorau yr ardal.

Pris: £139,950

Pecyn cynnal a chadw: £60 y mis

Am fanylion pellach, cysyllter â chwmni Morgan & Davies ar 01570 423623
lampeter@morgananddavies.co.uk
www.morgananddavies.co.uk

MORGAN & DAVIES

Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen 2016



Unawd a Llefaru dan 6 - 1. Gwennan Lloyd Owen, 2. Delun Aur Ebemezer, 3. Tirion Marged Tomos, 4. Elin Dafydd.



Unawd 6 – 9 – 1. Alwena Mair Owen, 2. Ela Mablen Griffiths-Jones, 3. Betrys Llwyd Dafydd, 4. Cerys Angharad, Pencarreg, 5. Swyn Efa Tomos, Pencarreg.

Llefaru 6 – 9 – 1. Ela Mablen Griffiths-Jones, 2. Cerys Angharad, Pencarreg, 3. Beca Elan Ebenezer, 4. Alwena Mair Owen, 5. Swyn Efa Tomos, Pencarreg.



Unawd 9 – 12 - Ifan Meredith, 2. Gruffydd Llwyd Dafydd, 3. Ffion Mai Davies, 4. Elen Morgan, 5. Grace Lambert. [absennol o'r llun]

Llefaru 9 - 12 – 1. Ifan Meredith, 2. Ffion Mai Davies, 3. Elen Morgan.



Cadeirio'r Bardd dan 25 oed – Nest Jenkins, Lledrod a **Tlws Ieuencidd dan 25 oed** – Megan Elenid Lewis, Llanfihangel y Creuddyn.



Eitem Orau yn y Celf a Chrefft – Mari Hefin, Aberystwyth.



Canu Emyn dan 60 – Ianto Jones, Cribyn.



Cystadleuydd Mwyaf Addawol o dan 12 oed yn yr Adran Gerdd – Alwena Mair Owen, Llanllwni.



Sgen ti dalent? dan 16 oed – Sioned Fflur Davies, Llanybydder.



Parti Llefaru Agored – Sarn Helen



Deuawd dan 21 oed – Lowri Elen, Llambled a Sara Elan, Cwmann.



Deuawd dan 12 oed – Gruffydd a Betrys Llwyd Dafydd, Abermeurig.